

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 354 - 60c
Mehefin 2017

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cadwyn
Cyfrinachau
yr Ifanc**



Tudalen 25

**Twrnament
Pêl-droed
Llanybydder**



Tudalen 29

**Y Wisg
Werdd i
Elonwy Davies**



Tudalen 8

Cyraeddiadau'r Cymunedau



Diwrnod Porffor Ysgol y Dderi i godi arian tuag at y Gymdeithas Strôc. Adroddiad ar dudalen 16 a 17

Llysgenhadon Newydd CFfl Sir Gâr ar ddiwrnod y Rali.



Beca Mair Roberts



Gillian Jones



Yn Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Talgarreg enillwyd Tlws yr Ifanc gan Beca Mair Roberts, Parcyrhos, Cwmann. Disgybl Blwyddyn 9 yn Ysgol Bro Pedr.

Gillian Jones, Meysydd, Llanwnnen, Trysorydd Cangen Merched y Wawr Llamed, yn ennill y brif wobwr lenyddol yng Ngŵyl Genedlaethol Merched y Wawr a gynhaliwyd ym Machynlleth.

Priodas Dda




Sian, merch Rowland a Daphne Evans, Delfryn, Dyffryn Aeron a Bryn, mab Paul a Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd a briododd ar ddydd Sadwrn, Ebrill 29ain yn Eglwys Ystrad Aeron. Pob dymuniad da.



Angharad, Merch Llewelyn a Catrin Castell Du, Llanwnnen a Rhys Lloyd-Jones, mab Dafydd a Delyth Ystrad Dewi, Llanddewi Brefi a briododd ar ddydd Sadwrn Ebrill 29ain Yn Eglwys St Lucia, Llanwnnen.

Pob dymuniad da i chi yn eich bywyd priodasol ac wrth i chi Ymgartrefu gyda Betsan a Trystan yn Pistyll Gwyn, Llanddewi Brefi.

Celf



Arddangosfa Gelf gan chwech o artistiaid Grŵp Llanfair yn Longwood.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Cloncyn
Mai 16

Cafwyd blwyddyn dda eto leni. Diolch i bawb am gefnogi ac i'r 12 a fynychodd y cyfarfod heno yn y Cilgwyn.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@NiaMaesglas
Mai 14

Diolch o galon criw @CorCardiGan am noson wych yng Nghapel y Cwm heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ArwelJones6
Mai 14

Cerddedigion 2017! Bant a ni! Hamdden Llambled Leisure

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@lois_wms
Mai 12

@CorCorisma yn #Bowlio10! Lwc owt! #taithddirgel

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CorCwmann
Mai 11

Canu yn @thefalcondale ar gyfer ymwelwyr o #Sweden nos Lun

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cfillanwenog
Mai 8

Noson wych heno yng Nglwb Bowls Llanbedd gyda'n llywydd @arthianjones

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mehefin Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Gorffennaf Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gwyliau gartref

Un peth sydd wedi dod yn fwy poblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf yw 'staycation'. Hynny yw, gwyliau gartref. Dyw hynny, am wn i, ddim yn golygu aros yn ein cartrefi, ond yn hytrach, aros yn ein gwlad ein hunain, mynd bant i rywle o fewn cyrraedd (waeth sut mae mesur hynny!) a pheidio â thrafaelu'n bell - yn sicr ddim i wlad arall na thros y dŵr.

Mae'n dda felly fy mod i'n ffasynol yn hyn o beth! Eleni, am wahanol resymau, rydym ni'n mynd ar ein gwyliau blynyddol i Ben Llŷn, er taw mentro dros y dŵr i Iwerddon fyddem ni'n ei wneud gan amlaf yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond er y bydda i'n colli'r Guinness a'r acen Wyddelig hyfryd a'r nosweithiau o gerddoriaeth werin yn y tafarndai, mae lot i'w ddweud o aros yn ein gwlad ein hunain.

Fel un a faged ar ffarm, do'n i ddim yn gwybod beth oedd mynd ar wyliau, a pheth anarferol iawn oedd peidio dod adre i gyssgu. Diwrnodau bant - 'day trips' - i fan hyn a fan 'co oedd ein "gwyliau" ni fel teulu. Ac alla'i ddim gweld fy mod i wedi dioddef o beidio mynd i wledydd tramor. Yn hytrach, fe halon ni amser yn gwerthfawrogi'r trysorau sydd gyda ni fel gwlad, o Wynedd lawr i Forgannwg.

Mae gyda ni fel cenedl gyfoeth o adnoddau a thraddodiadau a phethau i'w cynnig. Dydyn ni fel Cymry ddim yn rhy dda am farchnata fodd bynnag, a dy'n ni ddim yn denu'r holl dwristiaid y mae gorllewin Iwerddon yn llwyddo i'w cael.

Ond sylweddol i o weld manylion cyfarfod blynyddol Clonc eleni nad o'n i'n gwybod digon am y fro hon rwy'n ei hystyried yn gartref i ni, er mawr gywilydd i fi. Wyddwn i ddim am glwb golff y Cilgwyn, Llangybi, a does dim cof gen i fynd ar yr hewl honno erioed.

Felly, os am osgoi hala arian ar betrol ac osgoi hwrli-bwrli trefi a dinasoedd pell, beth am fynd am 'day trip' i rywle o fewn cyrraedd, a dod i adnabod ein ardal yn well? Mae digon o lefydd bwyta yn nhalgylch Clonc - wnewch chi ddim starfo!

Cloncen

Cartref Newydd i'r Banc Bwyd

Mae Banc Bwyd Llambled erbyn hyn yn bedair blwydd oed! Ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Casglu bwyd, ei storio, ac yna pan ddaw gwir angen i'r golwg, mae modd ymateb drwy baratoi pecyn bwyd, addas i dri diwrnod, i helpu pobl yn ystod cyfnodau anodd iawn yn eu hanes.

Mae'r egwyddor yn syml ond fyddai'r Banc ddim yn llwyddo heblaw am gyfraniadau gan lawer, ac mae'r cyfan dan ofal pwyllgor llywio o wirfoddolwyr o eglwysi'r dref.

Gallwch chi ddychmygu fod angen rhoddion bwyd, a rhoddion arian at y bwyd, ac mae'r rhain yn dod gan bobl ar draws y gymuned, yn unigolion, ysgolion, eglwysi, cymdeithasau a busnesau. Diolch yn fawr i bawb ohonoch.

Mae angen lle i storio'r bwyd, ac o'r cychwyn bu rhai yn barod i roi lle i'r Banc: eglwys Emaus ar y cychwyn, ac oddi ar hynny, Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, yn Neuadd Burgess. Yn ddiweddar, trefnodd y Coleg i'r Banc symud oddi yno i le'r Coleg ar safle Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Bontfaen. Ac roedd dipyn o waith symud, ond rhyw ddiwrnod ym mis Ebrill, gwelwyd gwirfoddolwyr niferus yn pacio'r bwyd a'r silffoedd, gyda help staff y Coleg, a'u cludo i'w cartref newydd. Mae'r Banc Bwyd yn ddiolchgar iawn i Goleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant am y nawdd bwysig hon.

A gwirfoddolwyr o'r eglwysi wedyn sy'n trefnu pob peth: gweinyddu, casgliadau bwyd ac arian, trefnu a storio'r bwyd, derbyn ceisiadau gan yr asiantaethau priodol ac yna paratoi'r pecynnau, yn addas ar gyfer anghenion penodol yr unigolyn neu deulu sydd i'w cael. Mae cyfraniad y gwirfoddolwyr yn angenrheidiol i lwyddiant y gwaith, ac roedd hi'n braf iawn i glywed yn ddiweddar fod y Banc Bwyd wedi derbyn tystysgrif o ddiolch a gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth cymunedol hwn gan Uchel Siryf Dyfed am 2016/17, sef yr Athro Medwin Hughes.

Y tristwch yw bod angen Banc Bwyd yn Llambled a'r cyffiniau. Mae hynny'n amlwg o'r ffigyrau. Yn ystod 2016 bu'r asiantaethau partner yn gofyn am 355 o becynnau, a bu'r adnoddau gan y Banc Bwyd i'w paratoi, gan ddarparu bwyd ar gyfer 78 o deuluoedd, oedd yn cynnwys 202 o oedolion a 178 o blant. Y prif reswm dros yr angen i ddefnyddio'r Banc Bwyd oedd bod budd-daliadau yn hwyr neu wedi cael eu torri; ac ar gyfer y rhai oedd mewn gwaith, fod cyflogau neu oriau wedi cael eu cwtogi. Roedd dyled yn ffactor mewn rhai achosion, hefyd digartrefedd, a thrais yn y cartref. Cael a chael yw hi yn hanes rhai, nes bod rhywbeth annisgwyl neu anorfod yn dod i darfu, gan arwain at fethu cael dau ben llinyn ynghyd, na bwyd ar y ford. Gwaetha'r modd, mae angen Banc Bwyd ac mae'r gwaith mae'n ei gyflawni felly yn bwysig.

Os hoffech wneud cyfraniad i'r Banc Bwyd, gallwch adael rhoddion bwyd yn y blwch penodol yn siop y Co-op neu yn yr Hedyn Mwstard.

Os ydych chi mewn trafferthion, ac arnoch chi angen bwyd o'r Banc Bwyd (neu yn gwybod am rywun), cysylltwch yn y lle cyntaf ag un o'r asiantaethau lleol (fel CAB, neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, neu Tai Ceredigion) neu un o eglwysi'r dref, iddyn nhw gael eich cyfeirio at y Banc Bwyd yn swyddogol.





MEHEFIN

- 1-3 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
- 3 Taith Edward Llwyd yn dechrau o Lanfair Clydogau tuag at Lanbed.
- 3 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Nhregaron.
- 10 Diwrnod Agored Ysgol Dyffryn Cledlyn 10.00-2.00 y.p.
- 15 Sesiwn gyntaf Pwerdy Iaith Llambled yn Festri Brondeifi am 7.00y.h.
- 16 Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen. Bydd y gweithgareddau yn cychwyn am 4.00y.p. Croeso cynnes yma i bawb.
- 17 Sialens 60 milltir C.Ff.I. Llanwenog.
- 17 Diwrnod Dathlu 150 mlwyddiant Undeb Bedyddwyr Cymru yn Nghanolfan yr Halliwell, Caerfyrddin o 10 tan 4.30.
- 17 Arwerthiant cist car yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda'r elw yn mynd tuag at Garnifal Llanbed. 9yb - 2yp.
- 18-24 Wythnos Carnifal Llanybydder.
- 22 Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones AC yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Fictoria, Llanbed 6.00 - 7.30y.h.
- 24 Carnifal Llanybydder ar y Cae Rygbi.
- 24 Cyngerdd i godi arian i Ambiwllans Awyr Cymru yn Eglwys St. Pedr, Llanbed am 7.00y.h. gyda Chôr Cwmann a Lleisiau'r Werin a'r unawdwyr yw Dafydd Evans, Helen Gibbon a Kees Huysmans.
- 25 Cyngerdd gan Gôr Merched Bro Mwyn yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi am 7:30y.h. Dewch yn llw.
- 25 Oedfa flynyddol Capel Nonni am 2.00y.p. Disgwylir y Parchedig Wynne Vittle i bregethu. Croeso cynnes i bawb.
- 26 Noson Agored Ysgol Dyffryn Cledlyn 4.00-6.00y.p.
- 26 Derbyn Newyddion CLONC.
- 27 Ffair Haf Ysgol Bro Pedr am 2.45yp gyda Ras Hwyl i ddilyn.
- 30 Noson Rasys Sarn Helen Ysgol Felinfach.

GORFFENNAF

- 1 Diwrnod hwyl C.Ff.I. Llanwenog yng Nghaerwenog, Penffordd.
- 2 Taith Feicio Noddedig o Glwb Rygbi Llanbed am 10.00y.b. i godi arian tuag at Ambiwllans Awyr Cymru.
- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 7 Hufen, Mefus a Chân yn Clwb Bowllo Llanbed 7.00y.h. gyda Côr Cwmann tocyn £5 Elw tuag at Cancer DU a Chanolfan Gymraeg yr Andes yn Esquel.
- 8 Prynawn Agored Ysgol Llanwnnen.
- 8 Diwrnod Hwyl Llanllwni ar Gae Chwarae y pentref am 1.00y.p. Carnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, stondinau a lluniaeth.
- 8 Arwerthiant cist car yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda'r elw yn mynd tuag at Garnifal Llanbed. 9yb - 2yp.
- 13 Noson Goffi a Barbeciw blynyddol Eglwys Sant Luc, Llanllwni yn y Neuadd Gymunedol.
- 14 Gig yr Urdd gyda Swami, Calfari a Mellt yn Neuadd Fictoria, Llanbed am 8.00y.h.
- 14 Noson yng nghwmni'r Welsh Whisperer yng Nghlwb Pel-droed Llanbed am 8.00y.h.
- 15 Prynawn o ddathlu yn Ysgol Llanwenog am 2.00y.p.
- 16 Prynawn o ddathlu yn Ysgol Cwrtnwydd.
- 22 Cneifio Llambled ar fferm Capeli gan ddechrau am 8.00y.b.
- 29 Ffair Fwyd Llanbed ar dir Prifysgol y Drindod Dewi Sant.
- 29 Arwerthiant cist car yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda'r elw yn mynd tuag at Garnifal Llanbed. 9yb - 2yp.

AWST

- 5 Carnifal Llanbed ar gaeau rygbi'r dref.
- 11 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- 26-28 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn 50 oed.
- 28 Derbyn Newyddion CLONC.

MEDI

- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.
- 9 Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann.
- 11 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach.
- 16 Cyngerdd Mawreddog Dathlu 50 oed Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Theatr Felinfach. Artistiaid: Côr Canna, Steffan Rhys Hughes a Charlie Lovell Jones. Tocynnau o'r Theatr 01570 470697. Tocynnau ar werth o'r Theatr ar Fehefin Sed.
- 17 Aberduar 275: Oedfa'r dathlu am 2.00y.p, te i ddilyn a Chymanfa Ganu am 6.00y.h. Croeso cynnes i bawb!

Hydref

- 13 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.

Cellan



Yn ystod cyfarfod y Gwanwyn o Gyngor Sefydliad y Merched rhannwyd y Cwpan ar gyfer denu y rhif mwyaf o aelodau newydd gan Sefydliad y Merched Cross Inn a Cellan. Derbyniwyd y Cwpan gan Gill Griffiths, Llywydd Cross Inn a Maggie Hughes is-lywydd Sefydliad y Merched Cellan. Aeth y 'Silver Salver' am y ganran uchaf o aelodau newydd yng Ngheredigion i Sefydliad y Merched Cellan ac fe'i cyflwynwyd i Maggie Hughes. Daethant hefyd yn 3ydd yn Genedlaethol.

Corsgoch

Llongyfrachiadau

Llongyfarchiadau i Gareth a Wendy Evans, Parc-y-rhos ar ennill Adran Defaid Llanwenog yn yr Ŵyl Wanwyn yn Llanellwedd canol mis Mai.



Rhedwr

Ar ddydd Sul, Ebrill 23ain, fe redodd Guto Morgans (ŵyr Gwyneth Pensarnau) Farathon Llundain ar ran elusen Dolen Cymru Lesotho. Mae ei Fam a'i Dad wedi bod yn cefnogi'r elusen yma ers dros 15 mlynedd ac aethon nhw allan yno ar ymweliad fel teulu.

Roedd ganddo darged ariannol o £1,500 a thrwy gyfranaidau caredig llwyddodd i gyrraedd y targed. Os am genfogi'r elusen bwysig hon gallwch gyfrannu drwy fynd i wefan Dolen Cymru Lesotho. Mae'r arian a godwyd yn mynd yn uniongyrchol i gefnogi

prosiectau addysg yn Lesotho. Hoffai Guto ddiolch i bawb am bob cymorth.

Cwmsychpant

Cyngerdd

Daeth cynulleidfada deilwng ynghyd i Gapel y Cwm ar Nos Sul, Mai 14eg i gyngerdd gan Gôr Cardi-Gân. Cafwyd ganddynt eitemau safonol tu hwnt ac fe luniwyd y cyfan yn gelfydd iawn gan un o aelodau'r Côr ac aelod o Gapel y Cwm hefyd sef Dewi Blaenhirbant Uchaf. Llywydd y noson oedd Dennis Davies, Penlon Esger, Pontsian – un â'i wreiddiau yn ddwfn iawn yng Nghapel y Cwm ac fe gafwyd ganddo araith werth chweil, yn llawn hiwmor cefn gwlad ac roedd pawb wedi joio gwrando arno yn siarad. Cyfranodd yn hael iawn, iawn tuag at yr achos a diolchwn iddo am gofio am yr achos yn Cwm. Talwyd y diolchiadau i bawb am noson llwyddiannus dros ben gan y Parch Wyn Thomas a diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r achos.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Lewis ac Eifionwy Davies, Cilmeri, Huw a Glenys a theulu Tyngrug-Isaf ar golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl iawn sef Rod Davies, Croesmaen, Llanfihangel-ar-Arth yn sydyn yn ystod mis Mai.

18oed

Yn ystod mis Mehefin bydd Rhys Davies, Tyngrug Isaf yn dathlu ei ben – blwydd yn 18oed. Dymuniadau gorau i ti a joia'r dathlu!!

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS

BRECS

BATRIS

GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed

☎ 01570 423135

☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwniciffwnci@hotmail.com

Llanllwni

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Sallie a David John Davies, Maes ar golli ei brawd yng nghyfraith yn sydyn iawn sef Elgan Davies, Ffynnonddudur, Drefach Felindre.

Cylch Meithrin Llanllwni



Ein thema am y tymor yma yw 'Pobl a'u gwaith'. Mae'r plant wedi mwynhau dysgu am rôlau y pobl sy'n ein helpu, gan gynnwys ynweliad dan PSCO Ryan Jones. Yn ystod yr hanner tymor nesaf, byddwn yn mwynhau dysgu am wahanol swyddi megis adeiladwr, mecanic. Buom yn cynorthwyo'r Mudiad Meithrin i dorri record y byd trwy gynnal parti pyjamas. Cawsom fore llawn sbri, gyda'r ysgol hefyd yn ymuno â ni i wisgo pyjamas.

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg pob bore ar gampws yr ysgol gynradd rhwng 8.45-12, ac yn cynnig addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch a Bethan Vernon ar 07875409172 neu bethan704@btinternet.com.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynghawnau dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1-3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a thadcu's i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol gweithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Gweithgareddau Cylch Ti a Fi:
06.06.17 Peintio tu allan; 13.06.17 Gweithgaredd Sul y Tadau; 20.06.17 Gweithgareddau am yr haf; 27.06.17 Chwarae sensori; 04.07.17 Chwarae tu allan; 11.07.17 Cibabs ffrwythau.

Capel Nonni

Cynhelir Oedfa flynyddol Capel Nonni ar ddydd Sul, Mehefin 25ain am 2.00y.p. Disgwylir y Parchedig Wynne Vittle i bregethu. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Clwb 100 Enillwyr mis Mai 2017: 1af Emlyn Dudley rhif 10; 2il Ann Thorne rhif 13; 3ydd Lydia Williams

rhif 65. Diolch i bawb am gefnogi.

Undeb y Mamau:

Aeth y wibdaith flynyddol lawr i Lanllwch, Caerfyrddin i gael cyflwyniad gan berchnogion Caws Caerfyrddin. Roedd yn ddiddorol iawn i glywed am ddechreuad y Cwmni, drwy anerchiad a recordiad cyfrwng teledu. Cawsom gyfle i flasau eu gwahanol gawsiau a oedd yn foddhaol iawn. Roedd gwragedd Eglwys Llanllwch wedi darparu lluniaeth hefyd, ac rydyn yn dra ddiolchgar iddynt am eu croeso cynnes dros ben. Talodd Janet air o ddiolch.

Cyn gadael aethom i'r Eglwys, a chael gwasanaeth fendithiol o dan arweiniad y Parchedig Ann Howells.

Fe dreulion y prynhawn yn siop Vincent Davies, Hwlfordd a chael gwledd o siopa! Diolch am gael benthyg bws Gymunedol Llandysul, ac i Marion am ei yrru.

Bydd y gangen yn cwrdd ym Medi, am ein gwasanaeth Cymun arferol.

Aeth rhai o'r aelodau i Eglwys Llanbed nos Iau 18fed o Fai, i fod yn bresennol yn lansiad llyfr y Parch Ganon Aled Williams, Cerrig Milltir. Roedd yn noson hyfryd, a ffrindiau o bell ac agos wedi teithio i ddymuno'n dda i'r awdur!

Cynhelir ein Noson Goffi a Barbeciw blynyddol yn y Neuadd Gymunedol nos Iau, Gorffennaf 13eg.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Alwena Mair Owen sydd wedi ennill yr Unawd Cerdd Dant ac Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid, a chael cyntaf ar Unawd ac Adrodd Blwyddyn 3 a 4 ac Unawd Telyn Blwyddyn 6 ac Iau yn eisteddfod Llandudoch yn ddiweddar. Hefyd I Gwennan Lloyd Owen cafodd cael cyntaf ar adrodd yn eisteddfod Llandudoch Blwyddyn 2 ac Iau. Da iawn chi ferched.

Ysgol Llanllwni

Treuliodd wyth disgybl o'r Adran Iau dridiau yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog gan fwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau sydd yno a chwrdd â ffrindiau newydd.

Cawsom wahoddiad gan y Cylch Meithrin i ymuno â nhw er mwyn helpu'r Mudiad Meithrin i geisio torri record y byd drwy gynnal parti pyjamas mwyaf y byd. Daeth y plant i'r ysgol yn eu pyjamas a thalu £1, gan roi'r arian a gasglwyd i'r Cylch Meithrin.

Ar "Ddiwrnod Eco" buom yn chwynu a plannu blodau a llysiau mewn potiau. Mae'r amgylchedd tu allan yn llawer mwy deniadol a thaculus nawr!

Mae Mathew a Marigold wedi bod mewn diwrnodau pontio yn Ysgol Uwchradd Llanbed. Mae'r cynllun

yma yn werthfawr iddynt - i'w cyfarwyddo â'r ysgol a'r athrawon a'u paratoi ar gyfer Mis Medi.



Elan Evans disgybl o Ysgol Llanllwni, a gafodd 3ydd yng nghystadlaeth Celf a Chrefft Yr Urdd yn Llangrannog dros Sir Ceredigion - Gwaith Creadigol 3D unigol B1 4.

Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 yng ngŵyl Aml Sgiliau yn Ysgol Bro Pedr gan fwynhau'r gweithgareddau a chymeryd rhan fel tîm.

Daeth swyddogion o RNLI i'r ysgol i siarad gyda'r plant hŷn am bwysigrwydd diogelwch ar y traeth.

Aeth aelodau yr Urdd ar eu trip i "Ar y Bêl" ger Ffosyffin. Cafwyd noson hwylus iawn yno yn chwarae ar yr adnoddau a chael swper blasus. Diolch i'r staff yno am y croeso.

Rydyn yn ddiolchgar iawn i Gwmni Statkraft am eu rhodd tuag at brynu adnoddau TGCh i'r disgyblion.

Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol, Yr Ysgol Feithrin a'r C.F.F.I. wrthi'n trefnu Diwrnod Hwyl eleni eto a fydd yn cael ei gynnal ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 8fed ar Gae Chwarae y Pentref. Bydd yna garnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, stondinau a lluniaeth. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn yr hwyl.

Fel cymdogion i'r Talardd mae staff a'r disgyblion yn dymuno yn dda i John ac Anne Jones ar eu hymddeoliad o'r dafarn. Dymunwn yn dda i'r teulu newydd.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol - Mis Mai - 1af - £10 - Gareth Davies, Valley Lodge, Llanfihangel ar arth; 2ail - £5 - Denise Thomas, Neuadd Deg, Llanllwni; 3ydd - £5 - Wendy Davies, 14, Bryndulais, Llanllwni.

**Rhifyn Gorffennaf
yn y Siopau
6 Gorffennaf**

**Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
26 Mehefin**



Brenhines Carnifal Cwmman Annest Edwards yn cael ei choroni gan y Llywydd Cheryl Jones, ynghyd â'r morwynion Niomi Carroll a Cerys Rees, Brenhines y Rhosyn Alis Jones a'r Macwyaid Will Thomas a Tom Williams.



Enillwyr yr adrannau yng Ngharnifal Cwmman: Cylch Meithrin - Ilan Alffi Gregson; Derbyn - Williams Morris; Bl 1 a 2 - Ellie Gregson; Bl 3 a 4 - Cati Gregson (Unigolyn Gorau hefyd); Bl 5 a 6 - Gwenllian Llwyd.



Y Fflôt orau yng Ngharnifal Cwmman - Criw y Titanic, a Back in Time yn ail.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu tîmau pêl-droed yr ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Pêl- Droed Sir Gaerfyrddin ym mis Mai. Tra bo tîmau bechgyn blynyddoedd 5 a 6 wedi chwarae yn rhagorol ar y noson gan ennill y mwyafrif o'u gemau a dim ond colli un gêm, aeth y merched a thîm bechgyn blynyddoedd 3 a 4 ymlaen i ennill y twrnament gan aros yn ddi-guro trwy gydol y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd Carreg Hirfaen.

Llongyfarchiadau enfawr i dîm

Trawsgwlad yr ysgol wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Ceredigion yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn wych. Llongyfarchiadau hefyd i Cati Gregson (Blwyddyn 4) am gipio'r drydydd safle, Mari Evans (Blwyddyn 3) ac Osian Elis Roberts (Blwyddyn 6) am gipio'r seithfed safle, Hari Jones o flwyddyn 3 am gipio'r wythfed safle a Jessica Jones, Blwyddyn 6 y nawfed safle.

Ar yr 2il o Fai cafodd holl blant yr Urdd y cyfle i fynd ar daith Sgîo a Gwibgartio i Langrannog. Cawsom



Osian Elis Roberts, Ysgol Carreg Hirfaen Pencampwr Ras y Clwydi ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cynradd Sir Gaerfyrddin.

noson hyfryd a llawn hwyl a sbri ac wedyn galwon yn Aberaeron i gael selsig a sgloidion. Roedd yn noson hwyr iawn ond roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Cynhaliwyd gŵyl aml sgiliau yng Nghanolfan Llanbed lle bu dosbarthiadau bl. 3 a 4 yn cael hwyl wrth ymarfer a datblygu sgiliau chwaraeon.

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed Merched yr ysgol wrth iddynt gyrraedd yr wyth olaf yn Nhwrnament Cymru yn ddiweddar. Chwaraeodd pob un ohonynt yn fendigedig. Collwyd o 2-1 yn y chwarteri mewn gêm agos iawn.

Fel rhan o'n gwaith ar y thema 'Asiantaethau Teithio' Blwyddyn 3 a 4 cawsom y cyfle i wrando ar Mrs Meinir Evans yn siarad am ei phrofiad o deithio'r byd. Cafwyd bore hwylus yn clywed ei hanes a gweld y lluniau diri o sawl man gwahanol o gwmpas y byd. Diolch yn fawr iawn Meinir.

Ym Myd Athletau dymunwn longyfarch Osian Elis Roberts ar ddod yn Bencampwr Ras y Clwydi ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cynradd Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Bydd Osian yn awr yn mynd ymlaen i gystadlu ym Mhencampwriaeth Dyfed ym Mis Mehefin. Pob lwc iddo.

Cynhelir Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen eleni ar ddydd Gwener, Mehefin 16eg. Mae croeso cynnes yma i bawb – bydd y gweithgareddau yn cychwyn am 4yh.

Bydd Mabolgampau yr Ysgol yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher, Mehefin 7fed.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Neta Williams a'r teulu Bryn-y-wawr ar farwolaeth mam, mam yng nghyfraith a mamgu annwyl iawn yn ystod y mis.

Eglwys Sant Iago

Ar fore Sul 14eg o Fai aeth



Sara Elan, Araul yn cipio'r wobwr gyntaf am yr Unawd Offerynnol, ail yn yr Unawd a'r Cerdd Dant a 3ydd am Lefaru yn Eisteddfod Llangadog, ac yn ennill y wobwr gyntaf yn yr Unawd a'r Llefaru a thrydydd yn yr Unawd Sioe Gerdd dan 19 oed yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid.

aelodau eglwys Sant Iago a eglwys Pencarreg ynghyd a ffrindiau ar eu pererindod blynyddol i'r Gadeirlan yn Nhŷ Ddewi.

Treuliasom ddiwrnod hwylus bendithiol iawn a'r haul yn gwenu arnom a rhoi cyfle i bawb werthfawrogi prydferthwch y gadeirlan a'r golygfeydd godidog o amgylch.

Buom yn cymdeithasu wrth ymuno i gael cinio blasus cyn mynd i gerdded i eglwys fach St Non. Roedd ein Ficer ni yr Hybarch Ddr Wil Strange ar ddyletswydd yn y gadeirlan a chawsom wahoddiad i gael te yn y Canonry. Bu cymdeithasu hwylus yno a mwynhau te blasus iawn yn eistedd ar y lawnt tu allan i'r Canonry yng ngwres yr haul. Diolchodd Mr Danny Davies i'r Ficer a Mrs Strange am eu croeso cynnes a'r te blasus.

Diweddgo pwrpasol iawn i'r pererindod oedd cael ymuno yr Hwylol Weddi yn y Gadeirlan a chael cyfle i wrando ar Côr y Gadeirlan a'i nodau bendigedig ac yn creu'r naws rhyfeddol. Roedd y gytgan yn fendithiol iawn ac yn traddodi y bregeth roedd ein ficer ni yr Hybarch Wil Strange.

Cyn cyrraedd adref diolchodd Mr Danny Davies i Mr Graham Evans am drefnu y pererindod, i Mrs Iona Davies am gynorthwyo gyda'r arian ac hefyd i'r gyrrwr bws.

Ysbyty

Danfônwn ein dymuniadau gorau i Canon Winzie Richards, Maesteifi sydd yn yr Ysbyty gan ddymuno y byddwch yn teimlo yn well yn fuan.

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth Daphne Morgan, Hen Swyddfa Bost, Pumsaint gynt yng Nghartref Nyrsio Blaendyffryn.



Taith Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parc-y-rhos ym Mynydd-y-Garreg.



Tîm Trawsgwlad Ysgol Carreg Hirfaen.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r ddwy chwaer a'r brodyr a'u teuluoedd.

Cymdeithas Bethel

Daeth blwyddyn hapus iawn llywyddiaeth Mrs Elma Phillips i ben Sadwrn 6ed o Fai gyda thaith i ardal Llanelli. Mae 'na dair ffordd y gallwn deithio o Gwmann i Lanelli. Mae'r daith drwy Cydweli ychydig yn ddiethr, ond yn cynnig llawer. Prif atyniad oedd ymweld â Phlas Llanelli neu Tŷ Llanelli yng nghanol y dref ger Eglwys hynafol Sant Elli.

Daeth Tŷ Llanelli i'r amlwg drwy y Teulu Stepney. Yn wreiddiol daeth y Stepney's o ardal Stepney Llundain, a daeth y teulu Cymreig i fodolaeth drwy i Alban Stepney, cyfreithiwr ifanc, ddod i Sir Benfro a phriodi merch stad Pendergast Hwlfordd. Gyda threigl amser priododd Sir Thomas Stepney a merch teulu y Vaughan o Lanelli a dod i berchnogaeth y tŷ. Cawsom ein tywys o amgylch y tŷ newydd o gyfnod Sioraidd a gweld moethusrwydd y cyfnod, ac roedd casgliad llestri gydag arfbais y teulu yn denu'r llygad, ac wedi ei gwneud yn Seina.

Teithio yn ôl am ymweliad byr â Phorth Tywyn i weld Colf Goffa Amelia Earhart yn Heol Stepney. Hon oedd y ferch gyntaf i deithio mewn awyren ar draws yr Iwerydd o UDA. Disgynnodd yr awyren ar gulfor o ddŵr yn morydd Porth Tywyn ganol dydd Mehefin 18 1928, yna yn 1932 hedfanodd Amelia ar phen ei hyn ar draws yr Iwerydd. Mae Porth Tywyn wedi tyfu ar draul Penbre, gan fod porthladd Penbre yn anaddas i longau hwylio mawr felly adeiladwyd porthladd newydd yn nes at Lanelli a'i alw yn Porthladd Newydd Penbre, ond maes o law cafodd enw newydd. Ymhen amser tyfodd pentre o amgylch yr harbwr a daeth enw Porth Tywyn i fodolaeth. Roedd yn yr harbwr gatiâu er mwyn cynnal dyfnder a'r drai'r llanw, fel bod llongau mawr yn medru llwytho glo unrhyw amser o'r dydd.

Mae pawb wedi clywed am y

diweddar Ray Gravell, unai drwy ei orchestron gyda'r bêl hirgron neu ar raglenni ar radio Cymru a theledu. Felly dyma droi am bentref Mynydd-y-garreg a lan ger yr Ysgol Gynradd mae Carreg Goffa i Ray; ie lleoliad arbennig i Gawr o Gymro. O leoliad y Garreg Goffa cawn olygfa arbennig o bentref Mynydd-y-garreg a thref Cydweli ac aber y Gwendraeth Fach. Yn yr ardal yma cawn hanes am Faes Gwenllian sydd nepell o Gastell Cydweli lle ymladdodd y Dywysoges Gwenllian gyda byddin y Deheubarth yn erbyn byddin y Normaniaid yn 1136.

Gyda hyn roedd yn amser swper a theithio nôl am Y Talardd Llanllwni i groeso John ac Ann. Talodd Elma air cynnes o ddiolchgarwch i bawb am gydweithio hapus dros y tymor a throsglwyddo'r llywyddiaeth i ddwylo medrus ifanc Dylan Lewis, gyda Mrs Mary Davies yn Is-lywydd.

Clwb 125 mis Mai Neuadd Sant Iago

1. Tegwyn Lloyd, Pen-y-bont, Pumsaint, 87; 2. Chris Lloyd 7 Heol Hathren, Cwmann, 147; 3. Wil Davies, Blaennant-Coy, Cellan, 1; 3. David Davies, Glenview, Pencarreg, 35; 4. Dai Herbert, Dolfor, Cwmann, 84; 5. Margaret Morgan, Blaenmaes, Pencarreg, 133; 6. Bethan Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann, 54.

Clwb 225 mis Mai Pwyllgor y Pentref

1. D. Griffiths, Brynhathren, Cwmann, 117; 2. D. Jones, Bara Gwalia, Llanybydder, 111. 3. Annette brown, 3 Kings Mead, Llambled, 8; 4. Helen Davies, Tanresger, Cwmann, 84. 5. Carwyn Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann, 83; 6. Wendy Evans, Parc-y-rhos, Gorsgoch, 214; 7. Dylan a Carys Davies, 8 Cysgod-y-coed, Cwmann, 39.

CFFI Cwmann

Bu'r aelodau yn brysur iawn yn Rali Sir Gâr ar y 13eg Mai. Diolch i bawb a fu'n hyfforddi.



Tîm pêl-droed merched Ysgol Carreg Hirfaen a enillodd Bencampwriaeth Sir Gaerfyrddin.



Tîm pêl-droed bechgyn blynnyddoedd 3 a 4 Ysgol Carreg Hirfaen a enillodd Bencampwriaeth Sir Gaerfyrddin.

Dyma'r canlyniadau: 1af i Gwawr Bowen a Iestyn Russell yn y Generation Game Hŷn; 2il i'r merched yn Grŵp Dawnsio a chydodd 3ydd i Dafydd Jones yn y Brechdanau Agored.

Mae blwyddyn arall o galendr y clwb bron ar ben, ond mae rhai digwyddiadau ar ôl: Cynhelir Helfa Drysor ar yr 2ail o Fehefin gan ddechrau o Neuadd Sant Iago am 6 o'r gloch; Bydd Cneifio'r clwb ar y 9fed o Fehefin am 7.30 o'r gloch yn Nghanlan, Cwmann; Cynhelir y Cinio Blynnyddol yng Ngwesty Llanina, Llanarth ar y 24ain o Fehefin gyda bws yn gadael Motor World am 6.45yh a bydd y Cyfarfod Blynnyddol ar yr 28ain o Orffennaf.



Iestyn Russell a Gwawr Bowen CFFI Cwmann yn ennill yn Rali'r Sir.



Derbyniodd aelodau Rhydybont y newydd fod Mrs Elonwy Davies wedi cael ei hanrhydeddu â'r wisg werdd Gorsedd y Beirdd gyda balchder mawr. Bydd Mrs Davies yn cael ei derbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Môn.

Cyflwynodd yr aelodau dusw o flodau iddi ar ôl gwasanaeth prynhawn dydd Sul y chweched o Fai.

Mae'r Eglwys yn teimlo fod Elonwy yn llawn deilyngu'r anrhydedd pe bai ond am y gwaith mawr mae wedi wneud dros y Capel ers degawdau fel ysgrifenyddes, organyddes ac ar ben hyn hi yw ysgrifenyddes y fynwent sydd yn swydd gyfrifol iawn.

Mae'r anrhydedd yma i Elonwy wedi disgyn ar flwyddyn hanesyddol bwysig i Rhydybont gan fod y Capel yn dathlu 300 mlwyddiant ers ei sefydlu yn 1717.

Bydd yr Eglwys yn dathlu'r pen-blwydd arbennig yma ar ddydd Sadwrn 22ain o Orffennaf mewn oedfa arbennig am 2.00 y prynhawn ac fe fydd croeso cynnes i bawb ymuno yn y dathlu.

Eglwys San Pedr

Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg ar Nos Fwarth 25ain o Ebrill 2017 yn Ffestri'r Eglwys. Yn bresennol: Parch Suzy Bale; Eurwyn Davies; Susan Evans; Avril Jones; Heather Jones; Christine Rogers; Ann Smith ac Eleri Thomas.

Diolchodd y Parch Suzy Bale i bawb am eu cymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Apwyntiwyd Mrs Susan Evans yn Warden yr Eglwys, unwaith eto.

Hefyd Valerie Wood-Warden y Ficer; Avril Jones – Trysorydd ac Eleri Thomas – Ysgrifenyddes.

Diolchwyd i Avril am ymwneud â'r Cyfrifon Blynnyddol.

Gweithgaredd Codi Arian: Taith Gerdded Noddedig – Nos Wener 18fed o Awst 2017.

Clwb 100 Enillwyr mis Mai: 1af – Lewis Williams- £15; 2ail – Mary Thomas £10; 3ydd – Mabon Edwards £5

Cymuned Taizé oedd ffocws gwasanaethau Dydd Sul 14eg a'r 21ain o Fai. Mae'r gymuned wedi dod yn un o'r safleoedd pwysicaf y byd parthed pererindod Cristnogol, gyda ffocws ar ieuencid. Mae dros 100,000 o bobl ifanc o bob cwr o'r byd yn gwneud pererindod i Taizé, Saône-et-Loire, Burgundy, Ffrainc, bob blwyddyn ar gyfer gweddi, astudiaeth Feiblaidd, rhannu, a gwaith cymunedol. Trwy gred ecwmenaidd y gymuned, fe'u hanogir i fyw mewn ysbryd o garedigrwydd, symlrwydd a chymod.

Canir emynau a salmau mewn sawl iaith. Yn ystod ein

gwasanaethau Eglwys San Pedr, canwyd- Laudate Omnes Gentes, laudate Dominum – Canmolwch enw'r Arglwydd, holl bobloed daear lawr. Hefyd Disgwyl yr Iôr, Ei ddydd a ddaw; Magnificat a Jubilate Alleluia. Cafwyd amser o dawelwch ar gyfer myfyrdod.

Deled dy deyrnas

Gwahoddiad gan esgobion Catholig Rufeinig ac Anglicanaidd Cymru: Mae'r wyth esgob Catholig Rufeinig ac Anglicanaidd yng Nghymru ar hyn o bryd yn gwahodd Cristnogion i neilltuo 10 munud ar gyfer gweddi bob dydd am y 10 diwrnod sy'n arwain at Sul y Pentecost gan ddechrau ar ddydd Iau Dyrchafael. (ond gellid dechrau unrhyw adeg)

Mae'r fenter fyd-eang hon, a noddur gan arweinwyr eciwmenaidd, gan gynnwys Archesgobion Anglicanaidd Caergaint a Chaerefrog a Chardinal Archesgob Westminster yn annog Cristnogion i ddod o hyd i ddeng munud i ganolbwyntio'n weddigar ar Dduw a'i deyrnas.

Yn ystod y 10 munud hwn gwahoddir dechrau gyda chyfnod o lonyddwch ac yna myfyrio ar y cwestiwn am y dydd yn seiliedig ar Weddi'r Arglwydd ee Diwrnod 1 – Y mae'r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw. (Rhuf. 8:16) Cwestiwn: Gyda phwy allwn ni ddyfnhau ein perthynas er mwyn cydweithio yng ngwaith Duw ein byd? Yna gorffen gyda gweddi arbennig a Gweddi'r Arglwydd. Penderfynodd sawl aelod i ymrwymo 10 munud ar gyfer 10



Swyddogion ac aelodau Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder gyda Eryl Jones, Cyfrifydd Llanybydder ynghyd a'i bartner Eleri. Eryl fu yn agor Noson Goffi'r pwyllgor a gynhaliwyd yn Ffestri Capel Aberduar. Diolch yn fawr iddo. Bu yn noson lwyddiannus gyda phlant Ysgol Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin yn diddori'r dorf luosog. Diolch iddynt hwythau hefyd.

diwrnod.

Clwb Hoci Llanybydder

Yn nhymor olaf Cyngrhair Hoci Gorllewin Cymru fel yr adnabyddir, mae'n falch gennym ddweud mai ni Clwb Hoci Llanybydder yw enillwyr y Gynghrair eleni. Trwy ennill 7 gêm a cholli 2 gwnaeth y tîm sicrhau y llwyddiant yma. Yn ogystal â hynny gwnaethant gyrraedd rownd gyn-derfynol cystadleuaeth Tarian Cymru gan golli i Dref Abertawe III o 5-3 mewn gêm bythgofiadwy yng Ngerddi Soffia, Caerdydd nôl yn mis Chwefror.

Mae nifer fawr o aelodau wedi chwarae dros y tymor a diolch yn fawr i bawb am eu hymroddiad ac yn enwedig i'r swyddogion am yr holl waith yn ystod y tymor. Diolch yn arbennig i'n Capten Angharad Morgan, is-gapten Elen Powell ac i'n ysgrifennydd Carys Wilkins am drefnu yr ymarferion, y gemau a phawb arall! Ymysg sgôrwyd y flwyddyn y mae Laura Jones, Rhian Thomas, Caryl Rees, Elen Powell, Hedydd Wilson, Amanda Russell, Catrin Rosser, Robyn Giles, Claire Richards, Sioned (Ffenestri) Williams a Naomi Davies. Braf yw gweld cymaint o enwau ar y sgôrwrdd sydd yn dangos dyfnder y tîm. Enillodd Caryl Rees ac Amanda Russell enwebiadau ar gyfer Chwaewraig y Gêm yn ystod y tymor. Enwebiadau y Chwaewraig dan 18 yn ystod y gemau eleni oedd Sara Jarman, Lleucu Ifans, Catrin Rosser a Naomi Davies. Mae yn arbennig i weld y merched ifanc yn gwneud eu marc gyda'r tîm cyntaf.

Cafodd y timau ieuencid hanner cyntaf tawel drwy ond chwarae un gêm, ond daeth y flwyddyn newydd â phrysurddeb a llwyddiant iddynt. Yn ystod y tymor fe wnaeth y tîm dan 16 chwarae pedair gêm gan ennill 3 a cholli 1. Gwnaeth y tîm dan 13 gymryd rhan mewn dau dwrnment gan ennill cyfanswm o 9 gêm a cholli 2. Diolch yn fawr

i holl aelodau y timau ieuencid a'u teuluoedd am eu cefnogaeth. Diolch yn arbennig i Rhian Thomas, Amanda Russell a Lleucu Ifans am hyfforddi a threfnu y timau ieuencid. Dymunwn pob lwc i Lleucu Ifans sydd wedi derbyn tri enwebiad i Gwobrau Hoci Cymru yn y categorïau Llysgenad Ifanc y Flwyddyn, Hyfforddwr Ifanc y Flwyddyn a Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn. Bydd yr ennillwyr yn cael eu cyhoeddi ar y 10fed o Fehefin.

Edrychwn ymlaen yn awr i'r toriad dros yr haf cyn ail-gydio yn ein ffyn ym mis Medi a chwarae mewn cynghrair newydd.

Aberduar

Mae Aberduar yn paratoi i ddathlu penblwydd 275 oed ar 17 Medi 2017. Fel rhan o'r dathliadau, bydd te i bawb ar ôl Oedfa'r Dathlu. Bydd tipyn o waith trefnu'r bwyd ac felly fe fydd cyfarfod i ddechrau arni yn cael ei gynnal mewn da bryd ar 15 Mehefin 2017, am 6.30 yr hwyr, yn festri Aberduar. Bydd diwrnod y dathlu yn ddiwrnod mawr i ni yn Aberduar, ac mae angen help pawb o aelodau ac o garedigion yr achos – os ydych o fewn cyrraedd, a diddordeb gennych, bydd hi'n dda iawn gennym eich gweld yn y cyfarfod hwn.

Wythnos carnifal

Nos Sul 18 Mehefin: Cyngerdd ieuencid yr ardal yn neuadd yr ysgol am 6.30 y.h. Adloniant gan blant yr ysgol, clwb ffermwyr ifanc Llanwenog, Alpha Evans, Elin Hughes a Gweno a Jessica. Nos Lun: Helfa drysor car am 6.00 y.h. Dechrau o'r clwb rygbi a £5.00 y car. £30.00 i'r enillwyr. Nos Fawrth: Bingo yn y clwb rygbi am 8.00 y.h. Nos Fercher: Helfa drysor cerdded am 6.30 i ddechrau o'r clwb rygbi a gorffen yn Tanygraig. £2.00 yr un a £30.00 i'r enillwyr. Nos Wener: 'Quiz Factor' am 7.30

Llanybydder

y.h. gyda'r lleoliad i'w gadarnhau (Llew du neu'r clwb rygbi). 4 mewn tîm am £10.00. Enillwyr yn cael £40.00. Dydd sadwrn: Carnifal a mabolgampau lawr yn y cae rygbi am 1.00. Llywydd y dydd yw Eryl Jones, y Cyfrifydd ac Eleri ei bartner. Bydd adloniant nos yn y clwb rygbi am 6.00 o'r gloch i'r plant ac yna fydd "Kiri Lee" yn canu am 9.00 o'r gloch hyd yr hwyr i'r oedolion.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Heilyn a Liza sydd wedi dyweddïo ym mis Ebrill. Pob lwc i chi i'r dyfodol.

Gohebiaeth

Annwyl gyfaill,

Estynnir gwahoddiad i chi i Ysgol Undydd Dathlu Cymunedau a gynhelir yn Senedd-dy Owain Glyndŵr Machynlleth, ddydd Gwener, 30 Mehefin, 11 yb – 4.00 yp.

Trefnir y digwyddiad gan weithgor Cymunedau Byw Cymdeithas yr Iaith er mwyn trafod datblygu cynllun ymarferol i gymhathu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau.

Mae'r diwrnod yn ymwneud â dathlu'r digwyddiadau diwylliannol sy'n digwydd yn barod a chodi hyder pobl i groesawu dysgwyr a mewnfudwyr i ddigwyddiadau Cymraeg. Bydd nifer o gynrychiolwyr yn bresennol yn ogystal â phresenoldeb gan y Mentrau iaith, Mudiad Dathlu'r Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Rydyn ni'n awyddus iawn i wahodd arweinwyr cymunedol, cynrychiolwyr mudiadau, dysgwyr brwdfrydig ac unrhyw un sydd am greu cynllun er mwyn ymestyn allan at ddysgwyr a mewnfudwyr a'u cymhathu.

Os hoffech chi fwy o wybodaeth am y digwyddiad cysylltwch â mi ar nia.llywelyn@googlemail.com neu 01650 511865.

Gobeithio eich gweld yno, ym mhrif ddinas hynafol Cymru!

Yn gywir

Nia Llywelyn

Swyddog Cymunedau Byw, Cymdeithas yr Iaith

Gohebiaeth

Dweud eich dweud!

Mae Panel Cyfryngau Cymru'n chwilio am bobl o bob oed, o bob rhan o Gymru i lenwi holiaduron am raglenni a gwasanaethau teledu.

Mae'r holiaduron yn hawdd a chyflym i'w llenwi a chewch dalebau siopa, arian i elusen neu hyd at £500 y flwyddyn i grŵp cymunedol (e.e. côr, Merched y Wawr, clwb chwaraeon neu bapur bro) am gymryd rhan.

Gallwch ddewis llenwi'r holiaduron am ddim ar-lein neu drwy'r post. Gweithredir yr ymchwil gan gwmni ymchwil TRP Research ar ran S4C.

Ymunwch ar-lein www.panelcyfryngau.cymru neu drwy ffonio Sian ar 07494 506 962.

Gŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn

Mae cymuned tref Castell Newydd Emlyn wedi dod at ei gilydd unwaith yn rhagor i drefnu'r ŵyl fwyd ar 10fed Mehefin 2017. Am y seithfed blwyddyn yn olynol bydd caeau chwarae Brenin Siôr V dan ei sang gyda phob math o fwydydd. Bydd cynhyrchwyr lleol yn heidio i'r ŵyl eto i arddangos eu cynnyrch o safon uchel ac eleni mae'r pwyllgor yn addo diwrnod yn llawn adloniant, gweithgareddau a mwy o gynhyrchwyr ac wrth gwrs yr arddangosfeydd coginio poblogaidd. Brian Jones o Castell Howell Foods bydd yn agor yr ŵyl am 11yb. Mae amserlen brysur gyda ni yn y gegin gyda 3 chogydd. Bydd yr arddangosfa gyntaf gan Mandy Wilcox, Deli delights. Ein hail cogydd yw Simon Briscoe, Gwesty'r Emlyn a'r trydydd yw Daniel Williams, Prynhawn da S4C. Maent yn edrych ymlaen at arddangos eu sgiliau ac at goginio i'r gynulleidfa.

Bydd ysgolion lleol gan gynnwys Brynsaron, Penboyr, Trewen, Cenarth a Y Ddwylan yn perfformio ar y llwyfan i gefnogi'r digwyddiad lleol. Bydd perfformiadau corau ysgolion Gyfun Emlyn a Bro Teifi, unawdwyr talentog yn ogystal ag ymweliad gan Sali Mali yn sicrhau y bydd yn ddiwrnod i'w gofio ac i ddathlu'r dref. Mae mwy o wybodaeth ar dudalen Facebook Gŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn Newcastle Emlyn Food Festival (cofiwch wasgu "hoffi") neu dilynwch ni ar Twitter @gwylfwydene.

Pentrebach

Pen-blwyddi arbennig

Dathlodd Roy a Mair Thomas, Llwynfallen ben-blwyddi arbennig yn ystod mis Mai. Gobeithio eich bod wedi joio'r dathlu ac y cewch iechyd da eto i'r dyfodol.

Gwasanaethau Coed

Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

TY CWM NURSERY

Penffordd, Llanwenog, SA40 9XE
Ar Agor o Ddydd Mawrth i Ddydd Sul 10yp – 6yp
Amrywiaeth o blanhigion ar gael yn cynnwys: planhigion lluosflwydd, llwyni, perllysiau a phlanhigion blynyddol.
Am rhagor o fanylion ewch i facebook neu ffoniwch 01570 480655
tycwmnursery.co.uk

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

true potential
wealth management

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus Clwb Rygbi Llambd yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llanbed

01570 422206 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Llanbedr Pont Steffan



Yng Ngŵyl Fai, Merched y Wawr yn Neuadd Felinfach yn ddiweddar enillodd Gwen Jones, Llanbedr y drydedd wobwr am osodiad blodau i ganol bwrdd

Cymdeithas Hanes Llanbedr

Daeth y tymor presennol o ddarlithiau i ben ym mis Mai, pan ddaeth Hannah Epicheff, sy'n Stiward Tŷ yn Llanerchaeron i siarad a dangos lluniau am y gwaith adnewyddu a wnaed yno gan yr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol.

Pan adawyd y lle i'r Y.C gan Mr Ponsonby Lewis, roedd tyfiant iorwg dros y lle, a phydredd o bob math wedi effeithio ar y tŷ oherwydd bod dŵr yn diferi i mewn ym mhobman, a'r hen lorïau wedi eu gosod ar y pridd odditano. Rhaid oedd codi'r llorïau, tynnu'r plastar oddiar y welydd, ail-wneud y to, ymysg llawer arall.

Bu llawer o weithwyr lleol yn gwneud y gwaith, a defnyddiwyd llawer o ddeunyddiau lleol, a da oedd clywed fod grantiau wedi dod i law i hyfforddi prentisiaid ifainc yn y gwaith a'r crefftiau traddodiadol.


Hynodrwydd Llanerchaeron yw'r ffaith ei fod wedi goroesi'n uned gyflawn hyd heddiw, ac mae'n cael ei redeg fel lle hunan-gynhaliol eto. Gwelir gwartheg duon Cymreig a defaid Llanwenog yno, ynghyd â moch. Gwerthir llysiau a ffrwythau - yn wir mae yna 150 o wahanol fathau o afalau ar y stâd, - ond mae'r gwerthiant yma yn mynd at gadw'r lle.

Braf yw cael cerdded o gwmpas y gerddi hyfryd a'r tai mas sydd wedi eu hadnewyddu hefyd, - hyn i gyd yn dyst i waith nifer o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i gynnal a chadw'n treftadaeth.

Diolchwyd yn gynnes i Hannah am fynd â ni drwy ddwy ganrif o hanes Llanerchaeron gan Selwyn Walters, Cadeirydd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yr un noson. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ffaithiol am y flwyddyn, gan gyfeirio at y Gymdeithas a'r Amgueddfa. Felly hefyd adroddiad y Trysorydd, Phillip Lodwick.

Ni ddaeth enwebiadau newydd ar gyfer Swyddogion, felly ail-



Llongyfarchiadau i Rajesh David o ganol dref Llanbedr ar ennill y wobwr gyntaf yn yr adran Uwch i ddysgwyr yng Ngŵyl Fai Merched y Wawr ym Machynlleth. Mae Rajesh yn aelod ffyddlon o'r Siop Siarad a chymdeithas CYD Llanbedr.

etholwyd y Cadeirydd, Selwyn Walters; Is-gadeirydd, Eric Williams; Ysgrifennydd, Barbara Jones, a'r Trysorydd, Phillip Lodwick. Roedd Yvonne Davies am gael ei rhyddhau fel Swyddog y wasg, ond nid oes enwebiad arall wedi dod i law eto. Camodd Gaenor Parry ac Euros Jones i lawr o'r Pwyllgor gwaith, a chyflwynwyd tusw hyfryd o flodau i Gaenor am y gwaith mae wedi gyflawni fel Swyddog Addysg yn yr Amgueddfa, a chyda myfyrwyr y Brifysgol. Enwebwyd Alan Leach ac Angela Roberts i fod yn aelodau o'r Pwyllgor gweithiol.

Bydd taith flynyddol y Gymdeithas yn mynd i'r Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre, ac yna ymlaen i'r Amgueddfa Bŵer yn Rhydlewis, Ddydd Gwener, Mehefin 23ain. Cysylltwch â'r ysgrifennydd os am roi eich enw.

Amgueddfa Llanbedr

Cynhaliwyd diwrnod prisio nwyddau llwyddiannus unwaith eto yn mis Mai, gydag arbenigwr o gwmni Peter Francis, Caerfyrddin yn bresennol. Mae tocynnau raffl ar werth yn yr Amgueddfa dros misoedd yr haf er mwyn cynnal costau rhedeg y lle. Tynnir y tocynnau lwcus ddiwedd y tymor, felly galwch i fewn a chefnogwch eich Amgueddfa leol.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd ein cyfarfod Blynnyddol yn Festri Shiloh ar yr 8fed o Fai gyda Elin Williams yn llywyddu.

Cynhaliwyd pleidlais i ddewis aelodau i'r pwyllgor am y tymor nesaf. Y rhai a etholwyd oedd Mary Davies,

Janet Evans, Elin Williams, Noleen Davies, Elma Phillips ac Ann Morgan.

Yna croesawyd ein gwraig wadd



Yr awdur, y Parch Aled Williams yn arwyddo ei lyfrau 'Cerrig Milltir' i'r prynwyr yn Eglwys Llanbedr. Mae'r llyfr wedi ei argraffu mewn dwy gyfrol - un yn Gymraeg ar llall yn Saesneg.

sef Lowri Fron, sy'n gweithio i Radio Beca. Rhoddodd grynodedd o'r hyn sydd yn digwydd a fewn yr orsaf ag sydd yn annog pobol i ddarlledu a gweithredu

drwy'r Gymraeg ac i roi gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymreig o bob math. Diolchwyd iddi yn gynnes a phwrpasol gan Gillian.

Cydymdeimlodd Elin â Brenda Morgan a oedd wedi colli ei brawd yn ddiweddar a dymunodd yn dda i'r aelodau fydd yn cystadlu yng Ngŵyl y Pum Rhanbarth yn Felinfach. Gwnaed trefniadau hefyd ar gyfer te i'r "Ifanc o Galon" yn ystod y mis a diolch i Mary, Pat, Eryl a Verina am fynd i helpu ar y dydd. Enillydd y raffl misol oedd Gwenda Davies a Noleen, Elma ac Avril a fu yn paratoi y Te. Taith ddirgel fydd gennym y tro nesaf ac edrychwn ymlaen at hynny.

Diolch

Hoffai'r Cynghorydd Ivor Williams, 10 Ffynnonbedr ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth yn ystod etholiad y Cyngor Sir yn ddiweddar.

Dymuna Pat Davies, Henardd ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, y galwadau ffôn ac am bob arwydd o gydymdeimlad a chonsynr a dderbyniodd o ganlyniad i farwolaeth ei chwaer, Sallie, yn gynharach yn y flwyddyn. Gwerthfawrogi pob cysylltiad.

Eglwys Fethodistaidd Sant Tomos yn dathlu Jiwibili Arian!

Ymunwch â ni i ddatlu 25 o flynyddoedd o addoliad a gwasanaeth yma yn Llanbedr yn Eglwys Fethodistaidd Sant Tomos. Ar ddydd Sadwrn, 10fed Mehefin bydd Drws Agored i bawb gyda lluniaeth ysgafn am ddim rhwng 2:30 a 4:30 y.h. Ar ddydd Sul 11eg Mehefin bydd Gwasanaeth Jiwibili yn Saesneg am 10:30y.b. dan ofal y Parch Peter Barber gyda chinio cyfrannu a rhannu i'w ddilyn. Mae Eglwys Fethodistaidd Sant Tomos

wedi lleoli yn Stryd Sant Thomas, Llanbedr Pont Steffan SA48 7DQ, ar faes parcio'r Cwmins.

Bydd llawer o drigolion y dref yn cofio'r hen gapel Wesley a safodd yn y fan tan 1992. Adeiladwyd y capel hwnnw yn 1875, ond mae gwreiddiau'r achos Fethodistaidd yn mynd yn ôl i 1806 yn Llanbedr. Cymraeg oedd iaith addoli yn St. Tomos tan 1983. Mae'r gynulleidfa bresennol yn ddiolchgar iawn, ac yn falch iawn, am ffydd ac ymdrechion ein hynafiaid Cymreig.

Diolch

Dymuna Mary Jones a theulu'r diweddar Vernon Jones [V&M] ddiolch i bawb am bob cefnogaeth, caredigrwydd ac arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch o galon i chi gyd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Sam a Pricilla Thomas, Beehive ar golli brawd yng nghyfraith yn sydyn iawn sef Elgan Davies, Ffynnonddudur, Drefach Felindre ac hefyd Mrs Annie Bowen, Cartef Hafan Deg a oedd yn chwaer i Elgan.


Adran yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i grŵp llefaru a pharti unsain Adran Llanbedr am gipio'r wobwr gyntaf ac i gôr yr adran ar ddod yn ail yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid a diolch o galon i Elin a Rhiannon am hyfforddi ac i Lois am gyfeilio ac i'r rhieni i gyd am gludo'r plant. Hefyd bu tim pêl-rwyd yr adran a thîm rygbi'r adran yn cystadlu ar lefel Cenedlaethol - diolch i bawb a fu'n hyfforddi a chynorthwyo a llongyfarchiadau mawr i'r tîm rygbi am orffen yn y trydydd safle - tipyn o gamp.

Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yng nghapel Noddfa prynhawn Sul 21 Mai ar ddiwrnod

Llanbedr Pont Steffan



Maer Llambled a'r cynghorwyr tref gyda'r arwydd newydd a osodwyd i ddynodi Llambled fel man geni Rygbi yng Nghymru. Yn y llun mae Y Cyng. Hag Harries; Rhys Bebb Jones; Selwyn Walters; Dave Smith, y Maer; Kistah Ramaya; Ann Morgan a Rob Phillips.

braf. Llywyddwyd yn gelfydd iawn gan Mrs. Rhian Evans, Salem Caio a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Elan, Lisa, Beca a Sioned o Noddfa. Wrth groesawu Mrs. Delyth Morgans Phillips i'n harwain, soniodd y Llywydd am ei ffyddlondeb i eglwys Noddfa, ei gweithgarwch yn y gymuned a'i harbenigedd ym maes yr emynau.

Er gwaetha'r dirywiad yn ein cymanfaoedd ar hyd a lled y wlad braf oedd gweld 20 o blant a ieuenctid yn bresennol ac yn rhoi o'u gorau a chyfoethogi ein Cymanfa.

Mwynhawyd eu cyfraniad yn fawr dan arweiniad medrus Delyth er bod rhai ohonynt yn Ifanc iawn - ambell un ond yn dair oed a phawb yn dod â gwên i wynebau'r gynulleidfa wrth gael hwyl yn canu emynau traddodiadol a chyfoes. Hefyd bu'r plant yn cyhoeddi'r emynau gan gyflawni eu gwaith yn raenus.

Cyflwynwyd anerchiad hyfryd i'r plant gan y Llywydd yn egluro ystyr geiriau Gweddi'r Arglwydd gan hoelio eu sylw o'r cychwyn a hwythau yn ymateb yn dda i'w chwestiynau.

Er nad oedd rhif y dynion ymhlith y cantorion yn uchel llwyddodd yr Arweinydd, yn ôl ei harfer, i dynnu'r gorau allan o'r côr mewn ffordd mor gartrefol a di-ffws.

Pleser hefyd oedd gwrando ar ei sylwadau diddorol am yr emynau.

Diolchodd y Llywydd i Delyth am ei chyfraniad gwerthfawr, i Ann Morgan ac Alwena Evans am eu gwasanaeth wrth yr organ, i bawb oedd wedi cymryd rhan, i Emlyn am arwain rihysal yr oedolion, i Janet am baratoi'r plant, i'r cantorion o'r eglwys lleol am ddod i'n cynorthwyo, ac yn olaf ond nid y lleiaf i Weinidog ac aelodau Noddfa am eu croeso ac am baratoi te ardderchog ar ein cyfer. Talodd deyrnged hefyd i'r swyddogion am eu trefniadau a dymunodd yn dda i Elfyn, ein trysorydd yn dilyn llawdriniaeth ychydig ddiwrnodau

ynghynt. Diolchodd Delyth hefyd i bawb am eu cydweithrediad parod.

Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Jill Tomos.

Capel Brondeifi

Ar Ddydd Sul y 7fed o Fai am 2 o'r gloch cafwyd gwasanaeth Cymundeb, gyda'r gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis wrth y llyw.

Un o'r aelodau, Ioan Wyn Evans, Caerfyrddin, gymerodd y gwasanaeth yn y bore ar y Sul canlynol, y 14eg.

Dychwelodd y gweinidog i'r pulpud y Sul wedyn (21ain), gyda'r gwasanaeth am 10 y bore ar yr 28ain yng ngofal Dwynwen Teifi o Landysul.

Ar ddydd Iau y 18fed o Fai cynhaliwyd digwyddiad arbennig ym Mrondeifi - gyda Brecwast Mawr Brondeifi yn codi arian ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol.

Eleni roedd ymgyrch Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar drafferthion y rhai sy'n byw yn ymyl afon Brahmaputra ym Mangladesh. Mae'r wlad boblog yma mewn peryg difrifol o lifogydd sy'n dod ag afiechyd, newyn a marwolaeth.

Roedd caffi bach Brondeifi ar agor o 7.30 tan 11.30 y bore, a'r byrddau'n llawn. Gadawodd y cwsmeriaid yn hapus, gyda gwên ar eu hwynebau a'u boliau'n llawn hefyd. Llwyddwyd i godi dros £1,000 ar gyfer yr achos teilwng hwn. Diolch o galon i bawb fu'n helpu a'n cefnogi, gan gynnwys y gweinidog - sydd wedi hen arfer gyda gwisgo ei ffedog i weithio yn y gegin!

Mae fideo byr yn cofnodi'r digwyddiad ar y we hefyd, gyda phlant yr Ysgol Sul yn serennu, ac yn werth ei weld.

Cymorth Cristnogol

Braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd i festri Brondeifi nos Fawrth 16 Mai ar gyfer Oedfa flynyddol

Gwahoddodd Delyth Jones bawb i 'De Prynhawn' yn y Panti, Llambled brynhawn Dydd Mercher diwethaf i godi arian tuag at Ymchwil Cancer. Ar ddiwedd y prynhawn roedd y cyfanswm wedi cyrraedd £1632. Yn y llun mae Delyth Jones, Pantri, noddwr; Cyng Ieuan Davies, Cadeirydd Grŵp Cancer Llanybydder a Llambled a Gwen Jones, Llywydd y Grŵp.

Cymorth Cristnogol wedi ei threfnu gan bwyllgor Llambled a'r cylch. Croesawyd pawb yn gynnes gan Weinidog Brondeifi y Parchedig Alun Wyn Dafis a chymerwyd rhan gan aelodau'r pwyllgor yn cynrychioli'r eglwys lleol.

Pleser mawr oedd croesawu Eleri Twynog i'n plith ac fe'i chyflwynwyd gan Twynog, ei thad, Cadeirydd gweithgar ein pwyllgor. Derbyniodd Eleri wahoddiad y llynedd i fynd allan ar ran Cymorth Cristnogol i Bolivia gyda chynrychiolwyr o'r Alban a'r Iwerddon. Pwrpas y daith oedd ceisio annog mwy o bobl i gofio am fudiad Cymorth Cristnogol yn eu ewyllysiau.

Yn naturiol mae'r Mudiad yn agos iawn at galon Eleri gan ei bod wedi cael ei hysbrydoli gan ei mam Hazel a roddodd flynyddoedd maith o wasanaeth amhrisiadwy i Gymorth Cristnogol.

Trwy gyfrwng llun a gair rhannodd Eleri ei phrofiadau â ni mewn ffordd mor broffesiynol ond eto yn hollol gartrefol ac yn llawn hiwmor. Mae poblogaeth Bolivia yn 10 miliwn ac mae'r brodorion yn siarad 37 o ieithoedd sydd yn ffaith anhygoel. Mae newid hinsawdd yn broblem enfawr mewn nifer o wledydd yn cynnwys Bolivia. Er mai Bolivia yw un o'r gwledydd sy'n cyfrannu lleiaf at y broblem hon mae effaith newid hinsawdd yn barod yn realiti yn y wlad. Datgelodd Eleri fel mae Cymorth Cristnogol yn ariannu projectau yno sydd yn medru trawsnewid bywyd y bobl.

Mae gwahanol lefelau o gyfoeth yno gyda rhannau o'r wlad yn dlawd iawn. Mae llifogydd yn medru creu dinistr enfawr ac effeithio ar fywoliaeth y bobl am gyfnod hir. Derbyniodd Eleri groeso twymgalon yno gan fwynhau ei hymweliad yn fawr gan ddysgu fel mae Cymorth Cristnogol yn medru gwneud gwahaniaeth.

Diolchodd Janet i Eleri am anerchiad gwych oedd wedi cyfoethogi ein hoedfa yn fawr, i bawb oedd wedi cymryd rhan, i Deborah am ei gwaith yn addasu'r oedfa ar ein cyfer, i Margaret am ei gwasanaeth wrth y piano, i Sara a Rhian am eu cymorth technegol, i'r chwiorydd am baratoi paned, i bawb am eu cefnogaeth ac yn olaf ond nid y lleiaf i'r Parchedig Alun Wyn Dafis ac aelodau Brondeifi am bob cydweithrediad. Tystiau pawb ein bod wedi cael noson arbennig iawn a erys yn y cof am amser hir. Casglwyd £114 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Talodd Twynog ei werthfawrogiad i Elaine Davies am gytuno i fod yn ysgrifennydd ein pwyllgor a'r Canon Andy Herrick am ei barodrwydd i ymgymryd â swydd yr Is Gadeirydd.

Diolchodd i Deborah am gymryd y trysoryddiaeth ac am ei chyfraniad diflino fel ysgrifennydd. Cynhelir cyfarfod nesaf o'r pwyllgor nos Fawrth 27 Mehefin am 5.30 yn Eglwys San Tomos.

Llwyddiant Eisteddfodol

Yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd daeth llwyddiant pellach i ran aelodau Adran Llambled yn Eisteddfod Rhys Tomos James Pontrhydfendigaid yn ddiweddar. Dyfarnwyd y parti unsain a'r parti llefaru yn gyntaf ac enillodd y cor yr ail wobr. Diolch i Rhiannon ac Elin am hyfforddi'r aelodau heb anghofio cyfraniad pwysig Lois y cyfeilydd. Mae dyled yr aelodau hefyd yn fawr iawn i Llinos am ei threfniadau ac i'r rhieni am eu parodrwydd i gludo'r plant i Bontrhydfendigaid.

Aelwyd ac Adran yr Urdd

Braf oedd gweld nifer dda wedi dod ynghyd yn ddiweddar i Ysgol Bro Pedr i Noson Goffi wedi ei threfnu gan Aelwyd ac Adran yr Urdd Llanbedr Pont Steffan.

Llanbedr Pont Steffan



Tîm rygbi adran Llanbedr yn dod yn drydydd yn y gystadleuaeth Genedlaethol. Da iawn chi.



Parti llefaru Adran Llanbedr yn cipio'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid.



Brecwast Mawr yn Festri Brondeifi ar y 18fed o Fai yn codi arian ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol.



Parti unsain Adran Llanbedr yn ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid.



Staff Brecwast Mawr Brondeifi lle codwyd dros £1,000 tuag at Gymorth Cristnogol.



Côr Adran Llanbedr yn cipio'r ail wobwr yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid.

Croesawyd pawb yn gynnes gan Llinos ac wrth i bawb fwynhau paned bu'r aelodau yn cyflwyno amrywiaeth o eitemau graenus iawn gan cynnwys partion llefaru, cyflwyniad dramatig, parti unsain, cêr, unawd alaw werin, grŵp dawnsio ac ensemble lleisiol sef y cystadlaethau llwyddiannus yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd eleni.

Llywydd y noson oedd Y Cynghorydd Hag Harris ac fe'i croesawyd ef a'i bartner Eiry yn gynnes gan Llinos a soniodd am ei gefnogaeth i'r Urdd ar hyd y blynyddoedd.

Cafwyd ganddo anerchiad diddorol yn llawn hiwmor a chyfraniad anrhydeddus tuag at yr achos.

Cyn troi tuag adref diolchodd Llinos i Hag am ei garedigrwydd, i'r aelodau am yr adloniant, i Rhiannon, Elin, Sian a Sally yr hyfforddwyr, i Lois y cyfeilydd ac i Janet am ei chymorth hithau. Talodd deyrnged hefyd i Gwendoline a staff y gegin am eu cydweithrediad, i Idwen am baratoi'r neuadd, i'r rhieni am eu cyfraniadau tuag at y raffl ac i bawb am eu cefnogaeth. Mae dyled yr aelodau yn fawr iawn hefyd i

Llinos am ei gwaith diflino hithau gyda'r paratoadau.

Mwynhawyd noson bleserus iawn a phawb yn rhyfeddu at dalent y bobol ifanc. Codwyd swm sylweddol o £436 tuag at yr Aelwyd a'r Adran. Diolch o galon i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf a phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Cyngerdd Elusennol Mawreddog

Cynhelir cyngerdd i godi arian i Ambiwylans Awyr Cymru yn Eglwys St. Pedr, Llanbedr Pont

Steffan nos Sadwrn 24 Mehefin am 7.00 o'r gloch. Yr artistiaid yw Côr Meibion Cwmann a'r Cylch a Lleisiau'r Werin a'r unawdwyr yw Dafydd Evans, Helen Gibbon a Kees Huysmans. Trefnir y cyngerdd gan Glwb Roatri Llanbedr Pont Steffan a gellir prynu tocyn am £10.00 yr un oddi wrth aelodau'r Clwb Rotari ac yn Crown Stores a Mark Lane Llanbedr Pont Steffan. Gellir hefyd dalu wrth y drws ar y noson ac edrychir ymlaen at noson arbennig iawn i gefnogi Ambiwylans Awyr Cymru.



Bu Ebrill a Mai yn gyfnod prysur i Glwb Sarn Helen gan ddechrau gyda ras lwybr 8 milltir yng Nghoed y Brenin ar y 22ain o Ebrill. Dawn Kenwright oedd aelod cyntaf y clwb i orffen mewn 1 awr 27 munud a 10 eiliad gan ennill y ras fenywod dros 60 oed gyda Delyth Crimes yn 4ydd dros 40 (1:33:02) a Helen Willoughby yn 7fed dros 50 (1:42:32.)

Y diwrnod wedyn ym marathon Llundain llwyddodd Caryl Wyn Davies i osod record bersonol o 3 awr 23 munud a 29 eiliad am y pellter heriol hwn gyda David Thomas, rhedwr marathon profiadol iawn, yn ei redeg mewn 3 awr 54 munud a 37 eiliad. Yn ei marathon gyntaf gwnaeth Emma Gray yn ardderchog i orffen y ras mewn 5 awr 55 munud a 5 eiliad.

Ar y 29ain o Ebrill rheddodd pedwar aelod ras fynydd y Cribin. Er mynd ar goll ag yntau'n arwain daeth Felipe Jones yn 4ydd gan gipio'r wobr 40 oed (1:01:43) gyda Daniel Hooper (1:04:06) yn ail yn y dosbarth hwnnw. Daeth Gareth Hodgson yn 7fed yn y ras (1:05:25) o flaen Sion Price yn 8fed ac yn ail dan 23 oed (1:06:19.)



Ar yr un diwrnod cynhaliwyd Ras y Barcud Coch ym Mhontarfynach. Daeth Dylan Lewis yn ail dros y cwrs heriol hwn (1:32:21) gyda Gareth Payne (1:37:40) yn 4ydd yn y ras ac yn ail ymhlith y dynion dros 40 oed a Mick Taylor (2:11:25) yn 3ydd dros 55 oed. Gwnaeth Eleri Rivers (2:11:25) yn arbennig i ddod yn ail dros 40 tra bu Dawn Kenwright (2:22:16) yn fuddugol dros 60.

Dim ond un aelod fu'n cystadlu yn Ras y Maer ar y 1af o Fai yng Nghaerfyrddin sef Graham Penn a ddaeth yn 8fed allan o'r dynion dros 60 ag yntau'n rhedeg yn ei lifrai milwrol mae'n debyg! Ar yr un diwrnod yr oedd nifer helaeth o redwyr y clwb yng Nghwrtnewydd i ffarwelio â'r ras 4 milltir flynyddol a drefnwyd bob blwyddyn ers 1987 gan lywydd presennol y clwb, Lyn Rees, i godi arian ar gyfer Ysgol Gynradd Cwrtnewydd sydd bellach yn cau. Fel arfer yr oedd yna ras 1500 metr i blant ysgol gynradd a'r enillydd am y drydedd flwyddyn oedd Rhys Williams (5:47) gyda'i gyd-aelod Harri Rivers yn 3ydd (6:34) a Gwydion Dafis o Dalgargreg yn gorffen rhwng y ddau (6:26). Ymhlith y merched brwydrodd Gwenllian Llwyd yn dda i ennill ei ras mewn 6 munud a 54-3 eiliad drwch blewyn o flaen Nia Lewis o glwb Aberystwyth (6:54-9) gyda Cadi Hedd Jones o Gaerfyrddin yn 3ydd. Wedyn enillwyd y ras 3000 metr i blant ysgol eilradd gan Gethin Jenkins o Aberaeron (12 munud a 12 eiliad) gyda rhedwyr Sarn Helen Jack Caulkett (12:41) a Daniel Morgans (12:56) yn ail a thrydydd. Enillydd y ras 4 milltir i oedolion oedd Sion Price mewn 22 munud ac 8 eiliad gydag Aled Sion Jones (16 oed) yn dod yn drydydd clodwiw (25:11.) Aelodau'r clwb hefyd aeth a'r gwobrau yn y dosbarth dros 40 oed i ddynion - Nigel Davies (36:27) yn 1af, Mark Rivers (26:55) yn ail a Michael Davies (27:25) yn 3ydd. Ymhlith y dynion dros 50 daeth David Warren o Aberteifi'n 1af (25:23) o flaen Richard Marks (25:56) a Huw Price (28:55.) Daeth merched y clwb i'r brig hefyd gyda Dee Jolly (28:26) yn gorffen yn 1af yn y ras agored. Daeth Eleri Rivers (30:21) yn 1af yn y dosbarth dros 40 oed gyda Sian Roberts Jones 32:48 yn 3ydd. Yn y dosbarth dros 45 oed daeth Dawn Kenwright (31:08) yn gyntaf a Delyth Crimes (33:19) yn ail. Rheddodd 33 o aelodau'r clwb yn y ras oedolion a Sarn Helen oedd y tîm buddugol (Sion Price, Aled Sion Jones, Richard Marks a Tomos Morgans.)

Ar y 10fed o Fai bu 6 o aelodau'r clwb yn rhedeg yn Ras yr Hafod ym Mhontrhydygroes. Daeth Sion Price yn gyntaf yn y ras gyda Felipe Jones yn ail a Gareth Payne yn drydydd. Cafwyd rhedeg addawol iawn unwaith eto gan Aled Sion Jones y tu ôl iddynt a chwblhawyd y cwrs traws gwllad unigryw hwn hefyd gan Richard Marks, Ormond Williams, Helen Willoughby a Daniel Willoughby.

Yn olaf cynhaliwyd ras flynyddol Sarn Helen yn Llanbed ar yr 21ain o Fai. Yr oedd y ras hon (dros 16 milltir a hanner ac yn dringo cyfanswm o 3 mil o droedfeddi) yn 38 oed eleni. Y cyntaf i orffen oedd Rob Johnson o glwb

Aberystwyth mewn 1 awr 53 munud a 31 eiliad. Y dyn cyntaf dan 40 oed oedd Andrew Oliphant, hefyd o glwb Aberystwyth, gyda Carwyn Thomas o glwb Sarn Helen yn ail mewn. 2 awr a 12 munud.



Yn nosbarth y dynion dros 40 oed daeth Dan Hooper o glwb Sarn Helen yn ail (2:01:31.) Ymhlith dynion eraill y clwb, Glyn Price oedd yr enillydd dros 50 oed (2:04:25) gyda Richard Marks yn ennill y wobr dros 60 oed ((2:26:15.) Cafwyd perfformiadau da gan Michael Davies (2 awr a 14 munud) a Huw Price (2 awr a 38 munud.) Y ferch gyntaf i orffen oedd Catherine Cole (2:11:31) ond daeth Dee Jolly o glwb Sarn Helen yn ail mewn record bersonol am y cwrs heriol hwn (2 awr 14 munud a 25 eiliad). Ymhlith merched eraill y clwb daeth Eleri Rivers yn ail yn y dosbarth dros 35 oed (2:29:48) y tu ôl i Claire Cleathero o glwb Trots a daeth Delyth Crimes yn ail dros 45 oed (2:55:04) y tu ôl i Wendy Tromans o glwb Rhedwyr Emlyn. Cafwyd perfformiad arbennig unwaith eto gan Dawn Kenwright i ennill y dosbarth dros 55 oed i'r Clwb. Sarn Helen oedd y tîm dynion buddugol hefyd (Dan Hooper, Gyn Price, Carwyn Thomas a Michael Davies.)

SylwadAu'r SiNeMa



gan Gary Slaymaker

Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn ystod y mis nesaf:

Dydd Gwener 16eg Mehefin - LION (PG-13) - Stori wir arall am ŵr ifanc o India, gafodd ei fabwysiadu gan bâr priod o Awstralia, ac yn mynd yn ôl i wlad ei febyd, i chwilio am y teulu gollodd e flynyddoedd yn ôl. Unwaith eto, ma gyda chi ffilm dawel, raenus, gyda pherfformiadau nerthol i gario'r stori. Bydden i'n tueddi i weud bod y golygfeydd yn India'n fwy nerthol na'r rhai yn Awstralia, ond erbyn bo chi'n cyrraedd y diweddglg pwerus, bydd hon wedi gadael ei marc arnoch chi. Bydde angen calon fel carreg arnoch chi i beidio cael eich cyffwrdd gan hon.

Dydd Gwener 7fed Gorffennaf - Moonlight (R) - Moonlight yw'r gwaith wnaeth ennill yr Oscar am y ffilm orau eleni...yn y diwedd, a s'dim amheuaeth bod hi'n haeddu'r clôd arbennig 'ma. Mae'n dilyn hanes crwt ifanc sy'n cael ei fagu yn Miami ar ddechrau'r 80au, ac y'n ni'n ei weld e'n tyfu i fod yn ddyn wrth i'r stori gael ei hadrodd. Fel Manchester by the Sea, mae'n stori fach dawel sy'n gwbwl ddibynol ar nerth y cymeriadau. Diolch byth, ma'r cymeriadau'n rhyfeddol, gyda'r tri actor sy'n chwarae'r gŵr ifanc yn cynnig perfformiade godidog. A gyda chefnogaeth anhygoel gan Mahershala Ali a Naomie Harris, ma' hon yn ffilm wnaiff aros yn y cof am flynyddoedd i ddod.

Dydd Gwener 21ain Gorffennaf - LA LA LAND (PG-13) - Os fuodd na ffilm "marmite"eleni, hon yw hi. Ma rhai yn barnu ma' La La Land yw'r peth gorau i ddod allan o Hollywood ers ache pŷs; ac eraill ffili gweld beth yw'r holl halibalw. Wy'n perthyn i'r ail gategori. O ni'n wirioneddol edrych mlân i weld hon, ond yn y bôn ma na rhywbeth arwynebol a ffals am yr holl brofiad. Wedi gweud hynny, mae werth ei gweld am berfformiad bywiog Emma Stone, sy'n achub yr holl beth rhag mynd yn fflat. O bosib, ro'dd yr heip ddath yn sgil ryddhau'r ffilm yn America, wedi bod yn ormod i ni yng Nghymru, achos wy' 'di cwrdda sawl un odd ddim yn deall pam fod pawb yn neud gymaint o ffws am y ffilm. Ond 'na ni - ond yw chwaeth yn rhywbeth personol?

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Campws Iau

Diolch yn fawr i Mrs Pink un o'n rhieni sydd wedi bod yn cynnal gweithdai Celf a Chrefft gyda nifer o ddisgyblion yr ysgol. Cawsant llawer o hwyl a sbri yn gwneud gemwaith ac yn defnyddio'r peiriant gwnïo i greu llun gan ddefnyddio amrywiaeth o ffabrigau.

Bu Sian Elin Williams gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn gwneud gweithdai atal bwllo. Cafwyd cyfleoedd ar lafar a thrwy waith crefft i drafod teimladau a rhannu profiadau. Diolch yn fawr iddi am roi o'i hamser.

Daeth bws GSUS i'r ysgol a bu disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 yn defnyddio cyfrifiaduron wrth ymateb i gyfres o senarios.

Llongyfarchiadau i nifer o'n disgyblion sydd wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Sirol yr Urdd – Fflur Meredith 1af am wehyddu, 1af yn Dylunio a Thechnoleg, 2ail Gemwaith, Lola Jones 1af am waith creadigol 2D, Ifan Meredith 2ail wobwr am wehyddu, 2ail am Ddylunio a Thechnoleg a 3ydd am emwaith, a Sara Jones 3ydd wobwr am waith tecstilïau. Newyddion gwych wedyn yn dilyn yr wythnos ganlynol gyda Lola Jones yn cipio'r wobwr gyntaf yn yn Genedlaethol a Fflur Meredith yn cipio dwy wobwr gyntaf – arbennig wir ferched. Bydd gwaith Fflur a Lola yn cael eu harddhangos yn y babel Celf a Chrefft yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd gwnaeth nifer o'n disgyblion redeg yn dda iawn a diolch i Mrs Roberts am drefnu. Daeth llwyddiant ysgubol unwaith eto i dîm merched blwyddyn 6 wrth iddynt gipio'r trydydd wobwr fel tîm am redeg – llongyfarchiadau mawr i Faye Jones, Evie Mc Kay a Jasmine Jones ac hefyd i Faye Jones ar ddod yn bedwerydd yn y ras unigol i ferched.

Cynhaliwyd Chwaraeon Potes yr Urdd ar gaeau'r ysgol a braf oedd cael croesawu ysgolion y cylch atom. Diolch i Rhydian a staff yr Urdd am drefnu unwaith eto. Cafodd disgyblion blynyddoedd 1, 2 a 3 gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu eu sgiliau wrth chwarae criced wedi trefnu gan Criced Cymru.

Bu disgyblion y Meithrin a'r Derbyn yn mwynhau gweithgareddau yn y Ganolfan Hamdden. Gwnaeth Activ Ceredigion drefnu Gŵyl sgiliau i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 ar y caeau aml bwrpas a chafwyd prynhawn llawn hwyl.

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 draw ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant mewn gŵyl rygbi a chawsant flas ar ddysgu nifer o sgiliau newydd. Diolch am y croeso ac i Jack Rees am drefnu.

Campws Hŷn



Llongyfarchiadau mawr i Twm Ebbsworth a Nest Jenkins ar eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth Barddoniaeth dan 19 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2017. Daeth Twm yn gyntaf a Nest yn drydydd yn y gystadleuaeth.

Falch gweld fod bechgyn y chweched wedi mwynhau eu diwrnod allan ar Ddydd y Farn ar Ebrill 15fed yn Stadiwm y Principality wrth iddynt wylïo'r Gleision yn erbyn y Gweilch a'r Sgarlets yn erbyn y Dreigiau.



Diwrnod ffantastig i dîm y merched dan 15 yng ngŵyl 7 bob ochr y Scarlets yn Abergwili ar Fai'r 3ydd. Tair buddugoliaeth i'r merched allan o 5 gêm. Heledd ac Elin yn arwain yn wych, hyder yn codi ar ôl pob perfformiad a'r merched yn dangos eu doniau. Rydym yn browd iawn o bob un ohonynt! Diwrnod o weithio fel tîm, mwynhau chwarae a sgorio ceisiau rhagorol. Da iawn chi!

Pob lwc i Idris Lloyd a Dafydd Lewis yn eu treialon gyda thîm Scarlets West dan 16 wythnos nesaf.



Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 9 ar y daith hanes i Wlad Belg ym mis Mai. Taith i ddysgu am y Rhyfel Byd Cyntaf ydoedd, gyda'r disgyblion yn gwrando ar hanesion yr ardal wrth i'w tywysydd eu harwain o amgylch lluo o leoedd pwysig, cofebion ac amgueddfeydd. Cafodd pawb amser arbennig. Diolch i'r athrawon am drefnu taith fythgofiadwy.



Perfformiodd y tîm rygbi merched yn arbennig ar Ebrill 4 wrth iddynt guro tîm cadarn a phenderfynol Dyffryn Taf. Arweiniad cryf gyda'r capten Catrin, a gefnogwyd gan berfformiadau cryf Gwenllïan a Heledd Jenkins. Pâr yr ail reng, Sara ac Elin, yn ffantastig yn ymosodol, a Cerys, Elain a Gwenllïan yn amharu ar ymosodiad Dyffryn Taf o'r dechrau. Heledd a Naiomi yn rheoli'r gêm a ganiataodd ein holwyr i sgorio ceisiau gwych. Llongyfarchiadau i ferched iau'r sgwad am gwblhau prynhawn gwych i ferched Bro Pedr!



Rygbi 7 bob ochr Ceredigion: Ar y 25ain o Ebrill, teithiodd ein tîm cyntaf i Gastell Newydd Emlyn er mwyn cymryd rhan yn nhwrnamaint 7 bob ochr Ysgolion Ceredigion. Yn anffodus colli wnaeth y bechgyn 24-26 i Fro Teifi mewn gêm agos iawn yn rownd derfynol y cwpan. Roedd yn ymdrech sgwal arbennig, gyda'r chwaraewyr yn dangos balchder wrth gynrychioli'r ysgol. Iestyn Evans oedd 'chwaraewr y trwnamaint' a llongyfarchiadau iddo.



Tîm merched dan 15 Ysgol Bro Pedr yng Ngŵyl 7 bob ochr y Scarlets



Llywyddion Calan Mai Cwrtnewydd Eirian Davies, Eric Rees a Dorian Rees.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Peter a Jean Griffiths a'r teulu oll, Fronddu ar golli brawd ac ewythr ym mherson Roy Griffiths o Lanybydder yn ystod y mis.

Cartref newydd

Dymunwn yn dda i Elen a Llyr Edwards a'r teulu, 2 Yr Hen Ysgol yn eu cartref newydd yn Llain Isaf, Maesycrugiau. Byddwn yn gweld eich eisiau.

Ysgol Cwrtnewydd

Erbyn hyn yr ydym bron ar ddiwedd hanner tymor arall ym mywyd yr ysgol. Mae Aron Jac Lewis a Rhodri Rees wedi llwyr ymgartrefu yn ein plith.

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn rownd rhanbarth trawsgwlad yr Urdd yn Aberaeron a bu rhai ohonynt yn cystadlu yn nhrawsgwlad cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Da iawn chi.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd Sir Ceredigion a braf oedd nodi bod y plant wedi gwneud yn wych. Yn y safleoedd cyntaf oedd Nerys Williams, Jac Rees, Lucy Moyes, Sara Davies a grŵp o blant cyfnod allweddol dau. Yn yr ail safle oedd Glesni Rees, Lucy Moyes, Clodagh Dalton a grŵp o blant cyfnod sylfaen, ac yn y drydedd safle Esyllt Jones, Mari Rees, Megan Davies, Sara Davies a Katy Moyes. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Ond erbyn hyn mae'r gystadleuaeth genedlaethol wedi bod, a braf yw cael dweud fod Lucy Moyes wedi ennill yr ail safle am gyfres o brintiau monocrom yn yr adran ffotograffiaeth. Da iawn ti Lucy!

Cynhaliwyd ein Calan Mai blynyddol ar Fai 1af lle bu pawb yn dathlu 30 mlynedd o fodolaeth y ras. Ein llywyddion eleni oedd Eirian Davies, Eric Rees a Dorian Rees, tri gŵr a oedd wedi rhedeg pob ras ers y cychwyn cyntaf. Cafwyd diwrnod arbennig gyda dros 175 o bobl yn rhedeg. Roedd yn ddiwrnod gwych a phawb wedi mwynhau. Codwyd swm sylweddol o dros £2,000 tuag at elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch i bawb am eich cefnogaeth di-flino dros y blynyddoedd.

Daeth Huw Evans, Alltgoch i ymweld â phlant blwyddyn 4 y dair ysgol fel rhan o gynllun gwaith gyda Ceri Wyn er mwyn creu cerdd ar gyfer Ysgol Dyffryn Cledlyn. Erbyn hyn mae'r gerdd yn barod ac mae'r plant wedi bod yn ffodus iawn i weithio gyda Lizzie Spikes yr arlunydd i greu cerflun a fydd yn cael ei arddangos yn Ysgol Dyffryn Cledlyn.

Bu holl blant a staff yr ysgol yn ymweld â Fferm Holden a Ffatri Gaws Hafod fel rhan o wobwr a wnaeth Megan Davies ennill yn y Sioe Laeth. Cafodd pawb ddiwrnod ffantastig yn dysgu am y broses o wneud caws.

Bu holl blant y dair ysgol yn cymryd rhan yng Ngemau Potes yr Urdd yn Llanbed. Prynhawn hamddenol yn dysgu sgiliau newydd.

Cofiwch am y diwrnod dathlu a fydd yn cael ei gynnal yn Ysgol Cwrtnewydd ar Orffennaf 16eg. Croeso cynnes i bawb.



Sara Elan Jones – 2il yn y gystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg i fl.7, 8 a 9 yn Eisteddfod yr Urdd.




Jessica McDonagh – 3ydd yn y gystadleuaeth Gwaith Creadigol 3D Bl.7, 8 a 9 yn Eisteddfod yr Urdd.



Uned Sgiliau Bywyd: 1af yn y Gwaith Creadigol 2D dan 25 oed A.A (Grŵp C) yn Eisteddfod yr Urdd.



Disgyblion blwyddyn 9 ger cofeb yng Ngwlad Belg i gofio am yr holl filwyr o Gymru a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.



Llangybi a Betws

C.Ff.I. Bro'r Dderi

Mae'r adeg prysur yn calendr y CFfI wedi ein cyraedd lle mae pawb yn prysur baratoi ar gyfer prif ddigwyddiad y CFfI sef y Rali.

Ond cyn y gwaith caled o baratoi at y rali rydym wedi cael sawl noson hwylus llawn sbort a sbri ymysg ein gilydd. Aethom i chwarae Ten pin Bowling a swper yn McDonalds yng Nghaerfyrddin a chael noson llawn chwerthin. Ymarfer ar gyfer chwaraeon y sir oedd nesaf a chawsom noson o gydweithio fel tîm ac ymarfer ar gyfer y diwrnod yn ysgol y Dderi, pawb yn mwynhau a chodi chwys. Da iawn i bawb wnaeth gymeryd rhan ar ddydd sadwrn 13 o Fai a phob lwc i bawb fydd yn mynd ymlaen i Gymru.

Ar ôl cyfarfod o drefnu ar gyfer y rali y peth cyntaf oedd rhaid bwrw ati i wneud oedd yr arwydd i hyrwyddo y diwrnod lle bu pawb yn mwynhau a chydweithio i gynllunio a chreu yr arwydd sydd nawr i'w weld yn Llangybi. Wnaeth rhai o'n haelodau fwynhau mynychu nosweithiau hyfforddiant barnu stoc a thrin gwlân ar gyfer y rali.

Felly edrych ymlaen a phrysus baratoi ar gyfer y rali sydd ar y 3.6.17 yn Nhregaron rydym yn i wneud nawr gyda phawb yn tynu at i gilydd a rhoi y gwaith caled i mewn i sicrhau fod y clwb a'r aelodau yn cael y gorau allan or diwrnod. Pob lwc i bawb sydd yn cystadlu ar y diwrnod a phob lwc i Tregaron sydd yn cynnal y rali.



Digwyddiad wnaeth cwpwl o'n haelodau fwynhau mas draw yn cymryd rhan ynddo oedd sialens y Cadeirydd sef beicio 75 milltir o gwmpas Ceredigion. Wnaethom gymryd rhan yn seiclo o Tregaron i Aberaeron. Diwrnod hwylus dros ben efo'r haul yn gwenu ac aelodau Ceredigion yn dod at i gilydd i godi arian at achos da. Roedd noson llawn sbort a dathlu diwedd y daith yn clwb rygbi Aberaeron ar ôl y beicio hefyd gyda noson o rاسus defaid a rhai aelodau o'n clwb ni yn cynnal disgo. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth drefnu y digwyddiad ac i bawb wnaeth gymeryd rhan.

Mae'r clwb yn cwrdd ar nos Lun yn ysgol y Dderi Llangybi – croeso cynnes i unrhywun sydd am ymuno â'r clwb. Cysylltwch â un o'r swyddogion am y flwyddyn, cadeirydd Nia Gwyther, is- gadeirydd Lowri Pugh-Davies neu ysgrifenyddes Carys Mair Jones.

Hamdden

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd Janet Farrow. Dymunwyd iachâd buan i'r aelodau a oedd yn sâl a chydymdeimlwyd â rhai a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar. Y wraig wadd oedd Dinah Williams o Lamedd a oedd yn adnabyddus i lawer. Cafwyd ganddi sgwrs ddiddorol yn llawn gwybodaeth am y nam ar y llygaid sef “Muscular Degeneration” clefyd sydd yn effeithio ar bobl hŷn fel arfer ond nid bob tro. Mae yna offer ar gael a chymdeithasu sydd o fudd i'r dioddefwyr ond nid oes gwella iddo ar hyn o bryd. Yn anffodus mae'n rhaid dysgu byw gyda'r anhwylder a gwneud y gore o bethau. Diolchwyd yn gynnes i Dinah am ei hymweliad a Hamdden ac am y wybodaeth werthfawr a gafwyd.

Yn anffodus rhaid oedd newid y trip blynyddol i Fehefin 16eg, pan yr ymwelir â “Wet Lands” ger Llanelli – gwarchodfa adar. Os oes diddordeb gennych cysylltwch â'r trysorydd. Ail-etholwyd Janet Farrow fel llywydd, Gwen Lewis fel is-lywydd, Sally Davies fel trysorydd a Mair Spate fel ysgrifennydd.

Enillwyd y raffl oedd Alunda Jones, Maisie Morgans, Barry Williams, Mair Spate, Betty Lockyer, Rita Jones a Sally Davies.

I ddiweddu y cyfarfod cawsom luniaeth ysgafn wedi ei rhoi gan Alunda a Rita Jones. Diolch iddynt. Ym mis Hydref bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi.

Cyngor Cymuned

Gellir gweld cyfrifon Ariannol Cyngor cymuned Llangybi ym Maesyffynnon rhwng Mehefin 1af a'r 29ain o 10.00 – 6.00y.h. trwy wneud apwyntiad [493325].

Maesyffynnon

Cynhelir cyngerdd blynyddol Maesyffynnon ar Fehefin 25ain am 7.30y.h. Yr artistiaid gwadd yw Côr Merched Bro Mwyn dan arweiniad Lisa Regan. Croeso cynnes i bawb. Mynediad £5 a'r elw i'r capel.

Croeso adref

Croeso adref a dymuniadau gorau i Mrs Gladys Pugh, Coxhead Hall am adferiad buan a llwyr ar ôl treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Bronglais.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am adferiad buan a llwyr i Mrs Rowena Williams, Maeslyn sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glangwili. Brysiwch wella. Rydym yn gweld eich eisiau. Dymuniadau gorau hefyd am iechyd buan a llwyr i Dilwyn Pugh, Bro'r Felin sydd ar hyn i bryd yn Ysbyty Bronglais. Gwellwch yn fuan.

Ysgol Y Dderi



Llongyfarchiadau mawr i Jorge, Hugo a Gruffydd am ennill cystadleuaeth Minecraft Menter Iaith Ceredigion. Cystadleuaeth i hybu llafar Cymraeg ydoedd trwy greu byd digidol ar Minecraft. Daeth Rhodri Francis i'r ysgol i gyflwyno tystysgrifau i'r holl blant a enillodd glod uchel oddi wrth y beirniaid, a thystysgrif i'r tîm buddugol. Mae'r tri wedi ennill gweithdy Minecraft hefyd- cyffrous iawn.



Llongyfarchiadau i dîm hoci blwyddyn 3 a 4 am ddod yn ail dros Geredigion yn nhwrnament hoci yr Urdd yn ddiweddar. Canlyniad arbennig.

“Coedwig wyllt” yw thema blwyddyn 3 a 4 ar hyn o bryd felly aeth y dosbarth cyfan i gwrdd â Becky Hulme o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yng nghoedwig Longwood i ddysgu am gynefin y wiwer goch. Mae'r wiwer goch dan fygythiad ac yn olygfa prin yn ein hardal ni bellach. Ond, mae llawer o bobl yn gweithio'n galed iawn i helpu'r wiwer goch oroesi. Cawson ni wersi difyr iawn yn astudio pelenni tylluan wen er mwyn darganfod beth oedden nhw'n eu fwyta? Roeddem ni wedi darganfod esgyrn llŷg, llygod bengrwn a llygod! Aethom ati wedyn i greu cadwyni bwyd. Cafodd y dosbarth ddiwrnod i'r brenin yng nghwmni James a Leah yn dysgu am goed brodorol Cymru ar Fferm Denmarc.

Llongyfarchiadau i holl enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd dros Geredigion. Cafwyd 44 o wobrau i gyd gyda 15 cyntaf, 7 ail a 4 trydydd. Canlyniadau campus!

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar drip i Fferm Ffantasi fel rhan o'u thema ‘Sŵ Bach’. Cafwyd cyfleoedd gwych i drin anifeiliaid fferm gan roi llaeth

Llangybi a Betws

i'r wŷn bach, dysgu am y geifr a'r moch a cael gweld alpacas! Diolch am y croeso.

Mae'r plant bach 4 i 7 oed wrth eu boddau yn cael gwersi nofio yn y pwll yn Llanbed. Profiad ac addysg angenrheidiol i blant sy'n byw yng nghefn gwlad yw dysgu nofio

Da iawn i'r holl blant fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth traws gwlad y cylch yn ddiweddar, ac i'r rhai wnaeth lwyddo i gynrychioli'r cylch yng nghystadleuaeth traws gwlad y sir hefyd! Arbennig.




Mynychodd blwyddyn 4 a 5 agoriad swyddogol o "ARTiculate" yng Ngaleri 3, Canolfan Gwiltiau Llanbed ddechrau mis Mai. Mae'r arddangosfa yn ddatliad o waith cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Cofiwch alw i fewn i weld ein gwaith a chofiwch sganio'r côdau QR ger y lluniau i glywed datganiadau'r artistiaid. Mae lliain sychu llestri hardd iawn a chardiau diolch hyfryd ar werth yno hefyd. Bydd yr arddangosfa ar agor tan ddiwedd mis Mai, cofiwch alw mewn.

Cynhaliwyd noson "Pizza a Cwis" gan CRhA yr ysgol, gyda'r Cynghorydd Odwyn Davies yn gwis-feistr penigamp! Bwrdd yr athrawon enillodd - wrth gwr! Noson hwylus iawn yng nghwmni ein gilydd. Diolch i'r Co op a Sainsbury's am eu rhoddion tuag at y noson.

Diolch i PC Alun am ymweld â phob dosbarth i drafod materion cadw'n ddiogel. Mae PC Alun wedi bod yn ffrind da i ni a hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus iawn iddo ar ddiwedd y tymor yma.

Fel rhan o waith thema blwyddyn 5 a 6 "Tro i llo", daeth Alex a Phil o'r RNLI i'r ysgol i sôn am ddiogelwch ar lan y môr a ger llynnoedd ac afonydd. Cyflwynwyd y neges bwysig yma mewn ffordd rhyngweithiol a bywiog iawn.

Ar ddydd Gwener, 19eg o Fai cynhaliwyd "Diwrnod Porffor" i godi arian tuag at y Gymdeithas Strôc. Trefnwyd y cyfan gan ddwy o ferched yr ysgol sef Cerys a Lili, er cof am eu tad, Derek John Jewell a bu farw ychydig cyn y Nadolig. Dathlwyd y diwrnod trwy wisgo rhywbeth porffor, enwi'r tedi, gweithgaredd rhedeg/cerdded a chacennau blasus. Llwyddwyd i godi £504, arbennig!!



Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant er mwyn dysgu am ddarnau arian. Roedd yr amgueddfa yn ddiddorol iawn a'r peiriannau yn ddigon o ryfeddod. Galw yn Ffatri Sony ym Mhen-coed wedyn, er mwyn dysgu sut oedden nhw'n cynhyrchu'r cyfrifiaduron Raspberry Pi a chael gweld y dechnoleg ddiweddaraf ar waith yng Nghymru.

Eisteddfod Talgarreg



Dan 8 oed (o'r dde) enillwyd y cyntaf am ganu a llefaru gan Ela Mablen Griffiths Jones, Cwrtnewydd; Beca Ebenezer, Cellan ail am lefaru a 3ydd am ganu; Fflur McConnell, Aberaeron, ail am ganu a 3ydd am Lefaru; Gwennan Owen, Llanllwni yn gydradd â'r trydydd yn y ddwy gystadleuaeth.



Ifan Meredith, Llanbed yn fuddugol ar yr unawd a'r llefaru dan 12oed.

W.D. Lewis
o'i Fab
Masnachwr a Maestri
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO AA

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenwi,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ceredigion

Braf gweld Swyddogion y Sir yn cyflwyno sic o £1,000 i R.A.B.I yn dilyn Gymanfa'r Frenhines a Ffarmwr Ifanc nŵl ym mis Mawrth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ar y noson!



Yn y llun gyda Bethan, Dewi a'r Dirprwyon mae Frances (Cadeirydd R.A.B.I Ceredigion) Euros (Is-gadeirydd) a Rhian (Ysgrifenyddes)!

Bu 87 o aelodau dros 18 ar ein pererindod blynyddol i gyfarfod cyffredinol NFYFC a gynhaliwyd eleni yn Torquay yn ystod penwythnos 21 o Ebrill. Cawsom lawer iawn o hwyl yng nghwmni ein gilydd yn ogystal ag aelodau eraill ar draws Prydain. Edrychwn ymlaen at fynd i Blackpool y flwyddyn nesaf.

Llongyfarchiadau mawr i holl aelodau Ceredigion a deithiodd yr holl ffordd i Ynys Môn ar gyfer Diwrnod Maes C.Ff.I. Cymru ar ddydd Sadwrn 29 o Fai. Gwych i gyhoeddi bod Ceredigion wedi dod i'r 2il safle ar ddiwedd y dydd.

Dyma'r holl ganlyniadau: Stocmon Hŷn y Flwyddyn: 2il fel tîm; Elizabeth Harries, Pontsian; Eiry Williams, Llangwryfon; Sian Downes, Llangeitho a Siôn Ellis, Llangwryfon; Stocmon Iau y Flwyddyn: 7fed Laura Evans, Llangwryfon; Ffion Jenkins, Llanwenog; Gethin Morgans, Llanwenog a Gethin Evans, Troedyaaur; Codi Ffens Hŷn: 3ydd Tîm Llangwryfon Rhodri Jones; Dyfrig Williams; Llyr Jones; Codi Ffens Iau: 1af Tîm Llangwryfon Rhodri Griffiths; Brychan Lewis; Dafydd Davies; Llwybr Natur Iau: 1af Tregaron Rhiannon Jones; Megan Herberts; Arddangosfa Ciwb: 2il Trisant Alaw Evans; Mari Davies; Sara Griffiths; Miriam Davies a Sian Evans.

Wedi i'r glaw mân glyrio yn y bore, cafwyd diwrnod i'r brenin yn Llambed ar gyfer ein cystadleuaeth Chwaraeon ar ddydd Sadwrn 13 Mai. Dyma'r clybiau ddaeth i'r brig: Pêl-Droed - Talybont; Pêl-Rwyd - Llanddewi Brefi; Hoci Cymysg - Tregaron; Rownderi Iau - Tregaron; Dodgeball - Llangeitho;



Rygbi Cyffwrdd – Llanwenog; Bydd canlyniadau llawn y chwaraeon yn cael eu cyhoeddi yn dilyn cystadleuaeth yr Athletau.

Canlyniadau Clwb 200 - 1. Heather Price, Esgereion, Llanwenog, Llanybydder, Ceredigion, SA40 7XE; 2. C.Ff.I. Felinfach; 3. Mr a Mrs Jenkins, Cathal, Pontsian, Llandysul.

Dyddiadau i'r dyddiadur: 3 Mehefin: Rali'r Sir, Tregaron; 16 Mehefin: Rygbi 7 bob ochr, Clwb Rygbi Llambed; 25 Mehefin: Chwaraeon C.Ff.I. Cymru, Aberystwyth; 28 Mehefin: Athletau'r Sir, Aberaeron; 30 Mehefin: It's a Knockout, Fforwm Ieuencud.

Diwrnod Rali C.Ff.I Sir Gâr 2017

Daeth y nosweithiau hir o baratoi ar gyfer y Rali i ben i aelodau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr a chafwyd diwrnod arbennig o gystadlu brwd ar Faes y Sioe,

Nantyci ar Ddydd Sadwrn yr 13eg o Fai 2017.

Yng nghanol y coginio, y cneifio a'r canu daeth cannoedd o bobl i gefnogi'r aelodau a chael gweld eu gwaith safonol iawn. Yn sicr, roedd gwaith y beirniad yn sialens!

Ar ôl yr holl gystadlu a'r beirniadu, fe ddaeth yr awr fawr yn y seremoni anrhydeddu Llysgennad a Llysgenhades y Ffermwyr Ifanc. Llysgenhades newydd y Sir yw Gwenann Jones o Glwb Dyffryn Tywi gyda Siôn Evans o Glwb Llanllwni yn Llysgennad y Sir. Dirprwyon i'r ddau eleni yw Siân Williams o Glwb Llangadog ac Aled Thomas o Glwb Dyffryn Cothi. Yn ogystal â'r llysgenhadon, cafodd yr Aelod Iau sef Sioned Howells o Glwb Llanllwni a'r Aelod Hŷn, Carys Ann Thomas o Glwb Cwmann eu anrhydeddu hefyd. Stocmon Iau'r flwyddyn oedd Aled Davies, Llangadog gydag Anwen Jones, Llanllwni yn Stocmon Hŷn y flwyddyn. Yn ennill Buwch Goffa Aled Howells am y brif Stocmon dros y flwyddyn oedd Caryl Howells o Glwb Llangadog.





Cyn cyflwyno'r gwobrau i'r holl aelodau daeth i'r brig yn ystod y dydd, cyflwynwyd blodau i Mrs Eirios Thomas fel diolch am eu deugain mlynedd o wasanaeth i Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin. Yn olaf, cyflwynwyd llu o wobrau i'r aelodau a llongyfarchiadau i bob un ohonynt ar eu llwyddiant a phob lwc i'r aelodau bydd yn cynrychioli Sir Gâr ar lefel Cenedlaethol.

Ni fyddai'r diwrnod wedi bod yn bosib heb gydweithrediad staff a phwyllgor Maes y Sioe na chwaith i stiwardiaid C.Ff.I Llanymddyfri am eu gwaith cyn ac ar ddiwrnod y Rali, a hefyd am stiwardio'r ddawns. Hefyd i C.Ff.I Penybont am stiwardio'r nosweithiau Barnu Stoc. Diolch iddynt hwy a diolch hefyd i'r ffermydd wnaeth ddarparu lleoliadau a stoc i gynnal y nosweithiau Barnu Stoc.

Mae'r Mudiad yn ddibynol iawn ar ewyllys da pobl ac mae hyn yn sicr yn wir am y noddwyr sydd o hyd yn ein cefnogi. Diolch o waelod calon i Fwydydd Castell Howell am fod yn brif noddwr y Rali un-waith eto eleni, ni fyddai'r Rali wedi bod yn bosib heb eich cymorth ariannol.

Diolch i Swyddogion, Llysgenhadon y Sir ac i stiwardiaid y gât ac i bawb arall wnaeth helpu mewn unrhyw fodd. Roedd y Rali'n ddiwrnod llwyddiannus oherwydd eu gwaith caled a chafwyd noson hwylus iawn i ddathlu yn y Ddawns yn Fferm Brynawelon, Llanfynydd gyda diolch i Mr a Mrs Ian Thomas am fodloni i gael y ddawns yno ac am baratoi'r Sied.

Llongyfarchiadau i Glwb San Ishmael am ennill yr Adran Iau ac i Glwb Llanfynydd am ennill yr Adran Hŷn.



Blas o Rali CFFl Sir Câr



**T L THOMAS A'I FAB
CROSSROADS, LLANLLWNI**

YN CHWILIO AM:-

YRRWR LORI 7 A HANNER TUNNELL

- LLAWN AMSER

DISGRIFIAD BYR O'R SWYDD:-

**MAE'R SWYDD YN GALW AM DDREIFAR I DDOSBARTHU YSTOD
EANG O NWYDDAU ADEILADU A CHOED I'N CWSMERIAID YN
OGYSTAL Â LLWYTHI LORI TIPAR**

**PROFIAD HIAB YN FANTEISOL OND NID YN HANFODOL
RHAID I'R YMGEISYDD FOD YN HYBLYG A DANGOS AGWEDD
GADARNHAOL TUAG AT Y SWYDD, GYDA'R GALLU I
GYD-DYNNU Â PHOBL**

**BYDDAI'R GALLU I SIARAD CYMRAEG YN FANTAIS A
GWYBODAETH DDA O'R ARDAL YN HANFODOL**

CYSYLLTWCH Â:-

GERWYN NEU ANWEN AR 01559 395 325

AM FWY O WYBODAETH

NEU Â'R SWYDDFA AM FFURFLEN GAIS

Drefach a Llanwenog



Shaun Walmsley mab Leo Walmsley yn ymweld â Phen Pom Pren lle bu ei dad yn byw efo teulu Pen Pom Pren yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd Shaun wedi ei eni yn Bwlchbychan ac wedi ei fedyddio yn Eglwys Llanllwni ym 1944. Mae Passport Shaun yn dangos Llanwenog fel ei fan geni.

Yn y llun: Cliff Thomas a'i fab Luke, Hazel Thomas, Shaun Walmsley a Jeff Thomas. Pawb yn dal llyfrau gan Leo Walmsley a oedd yn awdur toreithiog.

C.Ff.I. Llanwenog

Mae dathliadau 60 mlynedd C.Ff. I. Llanwenog yn parhau!

Sialens 60 Milltir - Mehefin 17eg - Bydd aelodau a chyfeillion y clwb yn seiclo, nofio, rhwyfo, rhedeg, cerdded a thynnu tractor am 60 milltir ar hyd yr ardal. Ry'n ni'n codi arian at Alzheimer's Society Cymru. Dewch i'n cefnogi ni ar ein taith neu noddwch ni ar Just Giving – ewch i'r wefan a chwilio am Sialens 60 C.Ff. I. Llanwenog.

Diwrnod Hwyl - Gorffennaf 1af - Bydd twrnament rownderi, gweithgareddau i'r plant a chyfle i weld hen luniau a ffilmiau o weithgareddau'r clwb. Am 5:30 y.h. bydd aelodau a chyn-aelodau'n cneifio 60 o ddefaid Llanwenog. Dewch yn llun am brynhawn llawn hwyl!

Cysylltwch ag unrhyw un o aelodau'r clwb am fwy o wybodaeth!

Y Gymdeithas Hŷn

Ar ddiwrnod heulog braf ar Fai 10fed aeth yr aelodau ar daith i sir Benfro o dan arweiniad Emyr a Gillian Jones, Meysydd. Cafwyd paned a chacennau cartref yng Nghaffi Bella yn Hermon. Rhoddwyd hanes y Ganolfan Gymunedol a sefydlwyd yn y pentref, pan gaewyd yr ysgol gynradd, gan y staff a Geraint Jones o Barc Cenedlaethol Penfro. Roedd hyn yn brosiect i ni gnoi cil drosto yn ardal ysgol newydd Dyffryn Cledlyn. Ymlaen wedyn i Fynachlog-ddu a charreg goffa Waldo Williams. Cafwyd hanes y bardd a'r ardal yn y fan honno gan Alun Ifans a datganiad o'r gerdd 'Preseli' gan Gillian Jones - a chlywyd y gog yn canu yno hefyd.

Aros ym Mhorthgain wedyn a chael hanes yr hen ddiwydiant cerrig a brics yno gan Ian o'r Parc Cenedlaethol cyn cael cinio yn y 'Sloop'. Treuliwyd gweddill y dydd

yn Nhŷ Ddewi. Cafwyd cefndir i baentiadau Graham Sutherland a thema'r 'Chwedlau' yn Oriol y Parc gan Emyr sy'n swyddog yn Oriol y Parc ac yna aeth nifer o'r aelodau i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol a chrwydro o amgylch y dref.

Cafwyd swper i gloi'r daith yn Nhafarn Ffostrasol. Diolchwyd i Emyr a Gillian am eu harweiniad yn ystod y diwrnod gan y Cadeirydd Dilwen George yn ogystal â dymuno'n dda i aelodau sydd yn dioddef o anhwylderau, a chydymdeimlodd ag aelodau a gollodd anwyliad yn ddiweddar.

Bydd y daith nesaf ar Fehefin 14eg a'r bwriad yw teithio yn ardal Dyffryn Gwy. Enwau i Yvonne Davies 480590

Eglwys Santes Gwenog

Etholwyd y swyddogion canlynol yn Festri'r Pasg ddiwedd mis Ebrill: Warden y Ficer, Mr Keith Goodall; Warden y Bobl, Mr Brian Lewis; Ysgrifennydd, Mr David Cooper; Trysorydd, Mrs Lynn Goodall. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ffyddlon a chymeradwy gan y Parch. Suzy Bale, Ficer, ac i Mr Keith Goodall am ei waith cywir a thrylwyr fel Ysgrifennydd am nifer o flynyddoedd.

Derbyniodd Mrs Wendy Mellor werthfawrogiad am ofalu fod cerdyn a blodyn yn cael eu hanfon i aelodau sy'n sâl neu mewn ysbyty, ac i'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad. Wedi trafod y fantolen ariannol, cytunwyd i gynnig gwaith adnewyddu rhan o do yr Eglwys i Mr Jeff Thomas, Glannau'r Afon.

Penderfynwyd i gynnal gweithgareddau amrywiol yn ystod y flwyddyn i gadw'r coffrau ariannol yn foddhaol. Derbyniwyd gwahoddiad drwy Hazel Thomas i groesawu Cerddorfa Ieuenctid Speedschare o Wlad Belg i gynnal cyngerdd yn yr Eglwys ar Orffennaf

9fed am 5 o'r gloch y. p. Pris mynediad £5, tocynnau oddi wrth Mrs Lynn Goodall, drwy ffonio 01570 481256. Gorffennaf 14: Cwis, caws a gwin yn yr Eglwys fach am 7.30 yh.

Daeth parti o gyn-fyfyrrwyr Prifysgol Aberystwyth i dalu ymweliad â'r Eglwys ar yr 17eg o fis Mai; croesawyd hwynt gan y Ficer, Mrs Mary Thomas a Mrs Viria Jones, a darparwyd lluniaeth ysgafn iddynt. Cofiw'n am bawb sydd wedi colli anwyliad, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at Mr a Mrs Stanley Griffiths a'r teulu i gyd ar golli ei frawd, Roy Griffiths.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylyd naill a'i gartref neu mewn ysbyty a chofiw'n am aelodau sydd mewn cartref preswyl. Clwb Cant mis Ebrill: 1. Mair Davies, Highmead Cottages; 2. Hyw Davies, Ornant, Llanwnnen; 3. Lilian Davies, Kings Mead.

Ymweliad â Phen pom pren

Shaun Walmsley mab Leo Walmsley yn ymweld â Phen Pom Pren lle bu ei dad yn byw efo teulu Pen Pom Pren yn ystod yr ail ryfel byd. Roedd Shaun wedi ei eni yn Bwlchbychan ac wedi ei fedyddio yn Eglwys Llanllwni ym 1944. Mae Passport Shaun yn dangos Llanwenog fel ei fan geni.

Yn y llun: Cliff Thomas a'i fab Luke, Hazel Thomas, Shaun Walmsley a Jeff Thomas. Pawb yn dal llyfrau gan Leo Walmsley a oedd yn awdur toreithiog.

Capel Brynteg

Cyflawnwyd gwaith Llywydd Cymanfa ganu Soar a'r Cylch eleni gan Mrs Megan Jones, Rhandir, a chymerwyd at y darllen a'r weddi gan Elin Davies, Tynrug-isaf.

Dechreuwyd y Gymanfa wrth i Megan gyhoeddi'r emyn cyntaf, ac yna wedi'r rhannau blaenorol, croesawyd Mrs Elonwy Davies yr Arweinydd at ei gwaith. Yn ystod yr egwyl, bu Megan yn adrodd ei hatgofion am ei magwraeth yng Nghapel Brynteg, ac yn awr wedi dychwelyd i'r ardal sydd mor annwyl iddi, - a hynny ar ffurf penillion yr oedd wedi eu cyfansoddi. Diolch iddi am ei gwaith ac am drefnu rhan Elin.

Taenwyd ton o dristwch dros aelodau Brynteg a'r ardal gyfan wrth glywed am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Rod Davies, Croesmaen, Llanfihangel-ar-Arth. Un o fechgyn Tynrug-isaf, a chymeriad hoffus ac annwyl gan bawb. Cydymdeimlwn yn ddwys â Rosie, ac a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth lem.

Ysgol Llanwenog

Bu holl ddisgyblion yr Ysgol yn brysur iawn yn ystod y tymor diwethaf yn creu eitemau Celf

a Chrefft ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd. Braf yw cael llongyfarch Ethan Rees. Disgybl blwyddyn 1 ar gael y drydedd wobwr am waith lluniadu yn dwyn y testun "Y Dyfodol". Da iawn ti, Ethan!

Yn ein Clwb Hwyl wythnosol mae'r disgyblion wedi cael ymwelwyr yn cynnal adloniant iddynt.

Rhyddian, Swyddog yr Urdd yn Llangrannog bu'n dangos sut i wneud sgiliau syrcau amrywiol iddynt. Cafodd y plant dro yn jyglo, troi platiau pedlo beiciau isel. Mwynheuodd pawb y sialensiau yma.

Yr wythnos ganlynol, daeth aelodau o'r Bâd Achub i sôn am eu swydd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwylio pa liw baneri sydd ar y traeth a chadw at y baneri yma. Cafodd rhai gyfle i drin offer ac i wisgo gwisg Gwylwyr y Glannau. Roedd hon yn sgwrs arbennig yn barod ar gyfer ymweliadau i'r traeth yn ystod tymor yr Haf.

Mae nosweithiau agored i ymweld ag Ysgol Dyffryn Cledlyn wedi cael eu trefnu yn ystod y tymor. Dydd Sadwrn 10fed o Fehefin a nos Lun 26ain o Fehefin yw'r dyddiadau.

Croeso cynnes i bawb ddod i weld yr ysgol newydd hyfryd yma.

Bu cystadleuaeth Traws Gwlad rhanbarthol yr Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar yn dilyn cystadlaethau'r cylch. Bu Elin Lloyd, Hannah a Nia Ayonoadu yn rhedeg yno. Rhedodd y tair yn arbennig o dda. Da iawn chi ferched!

Thema'r disgyblion y tymor yma yw yr Ardal Leol. Fel rhan o waith hanes yn y Cyfnod Sylfaen bu'r disgyblion yn dysgu hanes y gwyddonydd Desin. Braf oedd cael cwmni Geraint Davies sydd yn ymddiddori mewn hanes a bywyd y person enwog yma o Blwyf Llanwenog. Paratowyd cwestiynau diddorol gan y plant er mwyn gofyn i Geraint. Recordiwyd y sgwrs fel ein bod yn medru ei chadw fel capsiwl hanesyddol i'r dyfodol. Diolch yn fawr iddo am roi o'i amser i addysgu'r disgyblion am hanes a diwylliant eu milltir sgwâr.

Mae disgyblion blwyddyn 4 wedi bod yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf. Maent wedi bod yn gweithio ar brosiect arbennig sef prosiect Ysgolion Creadigol. Buont yn cydweithio gyda'r Prifardd Ceri Wyn Jones, yn ysgrifennu barddoniaeth arbennig ar gyfer trosglwyddo i Ysgol Dyffryn Cledlyn. Bu plant blwyddyn 4 Ysgol Cwrtnewydd a Llanwnnen hefyd yn yr un grŵp ac roedd hwn yn gyfle euraidd i'r disgyblion gyd-drafod a chydweithio er mwyn dod i adnabod ei gilydd yn well. Yn ogystal buont yn gweithio gyda'r artist Lizzie Spikes ac maent yn y broses o greu murlun i arddangos rhan o'r gerdd a grewyd a bydd i'w gweld yn yr

Drefach a Llanwenog

ysgol yn fuan. Mae'r crefftwaith yn cael ei greu allan o waith coed a gymerwyd o wahanol ardaloedd o'r dair ysgol. Mae hwn yn wir wedi bod yn brosiect bendigedig a'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn falch iawn o'u gwaith.

Mae plant yr adran Iau wrthi ar hyn o bryd yn creu ffilm o hanes yr ysgol. Maent wedi bod yn cynllunio'r hyn maent eisiau eu cynnwys ac wedi cyfwrdd â nifer o gyn ddisgyblion hen ac ifanc. Cafwyd y pleser o gwmni difyr Mr Stanley Davies yn yr ysgol a bu'r plant yn ei holi a'i recordio. Aeth criw o blant i Lanbed wedyn i gyfwrdd Mrs Bet Morgan a hefyd Mrs Mair Williams. Mae'r profiadau yma wedi bod yn hyfryd i'r plant. Cafodd Hafwen Davies ei chyfwrdd hefyd yn ogystal â'n cogyddes amryddawn Eleri Davies. Diolch iddynt i gyd am eu cyfraniad gwerthfawr. Diolch i Mrs Nerys Vobe am ei harweiniad a'i brwdfrydedd wrth greu'r ffilm. Edrychwn ymlaen yn eiddgar ar gyfer y 'Premier'.

Cofiwch bawb am ddiwrnod dathlu'r 150 a hefyd achlysur cau yr ysgol fydd yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar Orffennaf 15fed am 2 o'r gloch. Dewch yn llw.

Ysgol Dyffryn Cledlyn



Mae Ysgol newydd Ceredigion, Ysgol Gynradd Dyffryn Cledlyn, yn prysur baratoi at ei agoriad.

Datblygwyd y prosiect ar gyfer adeiladu ysgol ardal newydd ar safle yn Nrefach wrth ymyl priffordd yr A475 rhwng Llanbed a Llandysul i uno ysgolion cynradd Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd.

Mae lle i 150 o ddisgyblion yn yr ysgol gydag oddeutu 100 o blant yn symud i mewn i'r ysgol newydd ym mis Medi. Mae staff o'r tair ysgol wedi cael eu penodi i'w swyddi newydd.

Meddai Carol Davies, Pennaeth yr ysgol, "Rwy'n hynod o falch i fod yn rhan o'r datblygiadau cyffrous yma i ddarparu cyfleusterau dysgu rhagorol yn ardal Llambod ar gyfer disgyblion Ceredigion a sicrhau addysg disgyblion yn yr ardal ar gyfer eu dyfodol."

Cynhelir diwrnodau agored i bobl ymweld â'r ysgol newydd, ar ddydd Sadwrn, 10 Mehefin 2017, 10.00y.b. – 2.00y.p.; a Nos Lun, 26 Mehefin 2017, 4.00 – 6.00y.h.

Bydd ystafelloedd dosbarth ar gyfer plant Meithrin, Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, ardal adnoddau arbenigol, mannau amlbwrpas ac ardal gymunedol gan gynnwys neuadd fawr 200 metr sgwâr a chegin.

Y tu allan mae cae chwaraeon, iard sy'n addas i bob tywydd, meysydd chwarae diogel ac ardaloedd allanol i blant Cyfnod Sylfaen ac ardaloedd amgylcheddol.

Dyluniwyd yr ysgol fel ei bod yn cyflawni safon BREEAM 'da iawn' o ran cynnaladwyedd a pherfformiad amgylcheddol, a defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf i greu system awyru naturiol a system chwistrellu effeithlon. Mae hefyd gan yr ysgol newydd system ddraenio gynaliadwy a chyfarpar i gasglu dŵr glaw.

Ariannir y prosiect gan gronfa rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gydag arian cyfatebol wrth Gyngor Sir Ceredigion. Tîm penseiri'r Cyngor sydd wedi dylunio'r ysgol a rheoli'r prosiect ar y cyd ag ymgynghorwyr mewnol, ac Andrew Scott Cyf. a ddechreuodd ar y gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2016.

Trwy brosiect Ysgolion Arweiniol Creadigol, bu plant blwyddyn 4 y tair Ysgol a'r Prifardd Ceri Wyn Jones yn gweithio ar bennill arbennig:

"Wrth gau'r llyfr, wrth gau'r drysau
yn ein hen ysgolion ninnau,
awn i agor drysau newydd
Dyffryn Cledlyn gyda'n gilydd."

Mi fydd drysau'r ysgol yn agor am y tro cyntaf i'r plant ar ddydd Mawrth, 5 Medi 2017.

Cymanfa Ganu

Dymuna aelodau capeli Annibynnol Brynteg a Bethel ddiolch i Megan Jones, Rhandir, Cwmsychpant am lywyddu'r Gymanfa Ganu yn Shiloh mor fedrus a dyheuig yn ddiweddar. Methodd rhai ffyddloniaid fynychu'r achlysur a gofynnwyd a fyddai'n bosibl i ddarllen araith Megan a drosglwyddodd ar ffurf cerdd. Mae neges hanesyddol ynddynt, yn ogystal â her bwrpasol ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Dyma gopi ohonynt, gyda diolch diffuant i Megan am rannu'r geiriau i ddarllenwyr Clonc:

'Rôl crwydro Cymru o waith i waith,
Dod nôl i Gwmsychpant oedd diwedd y daith
Yn y flwyddyn dwy fil, a dyma ni
Nôl yn y pentref lle'm magwyd i;
Ac i Gapel Brynteg, lle annwyl i mi,
Mae gennyf yno atgofion lu;
Mynd i'r Ysgol Sul, lle gorau i ddysgu
Adnodau'r Beibl a stori'r Geni;
A chofio'r anwyliaid oedd yn ein hyfforddi
I'r Gymanfa Bwnc a'r Gymanfa Ganu;
Roedd Capel Soar yn llawn bryd hynny
Dyma hen Ddetholiad, gwnaf ei ddarllen i chi.

Mae ddod wedi mynd, a dyma ni heddi
Yng Nghapel Shiloh ar ein gore yn canu;
Mae gennym swyddogion a lot o amynedd
Ac yn eu swyddi ers bron ugain mlynedd;
Yn y gadair mae Eric, a Ken wrth yr arian
Ac Ann gyda'i phensil yn hollol ddi-ffwdan;
Elonwy ac Eurwen yn gweithio fel un
I gael pedwar llais i ganu'n gytûn,
Ac yn y rihysals y ddwy mor ffyddlon,
Mae'n drueni mawr mai prin yw'r cantorion.

Gyfeillion annwyl beth am yfory?
Beth yw dyfodol y Gymanfa Ganu?
Fel Cristnogion mae'n rhaid cael ffydd,
Ac efallai rhyw ddiwrnod y gwelwn y dydd
Pan fyddwn nôl yn Soar yn canu'n iach
Am fod Capel Shiloh wedi mynd yn rhy fach.

Sefydliad y Merched

Trysorau Tŵr Llundain a 'Gemau'r Goron', oedd pwnc David Cooper, pan ddaeth i'r cyfarfod diwethaf o Sefydliad y Merched. Bu Mr Cooper yn byw a gweithio yn Nhŵr Llundain am ddeng mlynedd ar ddiwedd ei yrfa yn y Fyddin. (Mae'n debyg bod dros gant o bobl yn byw ar y safle). Roedd ei araith yn hynod o ddiddorol gyda llawer o luniau gwybodaeth personol, na cheir yn y llawlyfr swyddogol!

Mae amser Sefydliad y Merched yn Ysgol Wirfoddol Llanwenog yn dirwyn i ben a'r mis nesa fydd cyn –bennaeth yn ceisio rhoi braslun o hanes yr ysgol am y can' mlynedd a hanner ers ei sefydlu. Estynnir croeso i gyn aelodau o'r mudiad i ddod i ymuno â'r cyfarfod ar Ddydd Iau, Mehefin 1af am 7.30 o'r gloch yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen i gael eich cwmni.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Brian Thomas, Rhiwson-ganol ar golli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar sef Elgan Davies, o Drefach Felindre.

Hefyd, cydymdeimlwn â Stanley a May Griffiths, Blaenpant ac hefyd Meryl ac Emyr Lloyd, Ger y teifi a'r teulu oll ar golli brawd ac ewythr ym mherson Roy Griffiths, Llanybydder a fu farw ar ddechrau'r mis.

Pen-blwydd Hapus

Dathlodd Gordon Lonsdale, Maes yr Onnen ei ben-blwydd yn 60 oed yn ystod mis Mai. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r parti.

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gogolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- * Datrys Problemau a Trwsio
- * Ymweliadau Cartref
- * Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- * Pherifferolion Ar Werth
- * Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX



dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Dychmygwch pe bai'n digwydd yn Llanbed

Dw i'n siŵr fod bron pawb sy'n nabod plant wedi bod yn dychmygu neu gofio'r un peth yn ystod y dyddiau diwetha'.

Dychmygu'u hwynebaw nhw'n llawn golau wrth edrych ymlaen at ddigwyddiad mawr, dychmygu'r llygaid gloew wrth wyllo arwr neu arwres a'r cyffro'n pefrio trwy eu cyrff.

Dyna sut yr oedd y plant yn y cyngerdd ym Manceinion; fe fu farw rhai ohonyn nhw, fe gollodd eraill y rhieni oedd wedi ymfalchïo yn eu mwynhad.

Efallai eich bod chi wedi dychmygu rhywbeth arall hefyd ... dychmygu sut y byddai hi pe bai ymosodiad fel yna'n digwydd mewn tre' fel Llanbed.

Dychmygu sut y byddai ein plant ni'n heidio'n ddiniwed i gyngerdd yn yr ysgol neu Neuadd Victoria a rhywun yn cerdded i mewn gyda bom anferth yn ei sach.

Ond efallai na allwch chi hyd yn oed ddychmygu peth mor ofnadwy â hynny.

Mae digwyddiadau o'r fath yn codi cwestiynau anodd i newyddiadurwyr, neu o leia' mi ddylen nhw. Cwestiynau am dynnu llinell rhwng chwilio am straeon a gwybodaeth, ar un llaw, ac ymyrryd mewn galar ar y llall.

Ar un llaw, mae'n bwysig bod maint y trychineb – a'r arswyd a'r boen sydd ynghlwm ag ef – yn cael ei ddeall yn iawn; ar y llaw arall, mae'r holi am deimladau a chwilio am straeon dramatig yn gallu cynyddu'r gofid.

Ar ei orau, mae gohebu o'r fath yn gallu bod yn deimladwy a dwys; ar ei waetha', mae'n gallu ymddangos yn ddienaid, fel petai newyddiadurwyr yn ymhyfydu yn y straeon.

Hyd yn oed o bellter Llanbed, mae'r cwestiynau'n codi, wrth i newyddiadurwyr ymhobman chwilio am gysylltiadau gyda'u hardaloedd nhw. Oedd yna rywun o Gymru yn ei chanol ni? Oedd yna rywun lleol?

Mae dod o hyd i'r cysylltiad agos yn gwneud y stori'n llawer mwy perthnasol i ddarlennwyr ond mae yna beryg hefyd i fychanu'r trychineb trwy bwysleisio cysylltiad o'r fath yn hytrach na'r gofid mwy ... peryg hyd yn oed o edrych fel petaech chi'n deisyfu cysylltiad lleol.

Ond mae'r lleol yn gweithio, ac un stori ar Clonc360 am stiwdant a ddaeth yn ôl o Fanceinion ychydig cyn y trychineb yn cael miloedd o ddarlennwyr ar Facebook.

Felly, dychmygwch eto sut y byddech chi'n teimlo pe bai cannoedd o newyddiadurwyr yn cyrraedd Llanbed i adrodd am drychineb. Yn yr oriau cynta' efallai y byddech chi'n falch fod y cyfryngau'n cymryd diddordeb; ar ôl ychydig, llonydd fyddai orau.

Ynghanol y digofaint naturiol am yr hyn sydd wedi digwydd a'r anhawster i gredu bod neb yn gallu mynd allan yn fwiadol i ladd plant a phobol ifanc yn eu hapusrwydd, mae angen i ni ddychmygu un peth arall. Mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud.

Un digwyddiad oedd ymosodiad Manceinion, ond dychmygwch pe bai tref Llanbed yn Syria neu Afghanistan. Dychmygwch ymosodiadau bob dydd gan daflegrau, neu awyrennau, neu ddrylliau.

Meddyliwch am Stryd y Coleg wedi'i chwalu a dim ond ambell wal yn sefyll o'r siopau oedd yno ac am rwbel tros y ffordd ymhobman. Dychmygwch orfod rhedeg o ddrws i ddrws i lawr Stryd y Bont am fod saethwr mewn ffenest yn rhywle.

A dychmygwch y plant a'u rhieni.

Wrth gydymdeimlo gyda theuluoedd Manceinion, mae'n bwysig cofio bod plant diniwed a'u rhieni di-fai yn cael eu lladd bob dydd mewn dinasoedd - a threfi o faint Llanbed – yn y Dwyrain Canol.

Dyw eu galar, eu trallod a'u pryder nhw ddim mymryn llai nag y byddai ein teimladau ni, nag y mae teimladau Manceinion.

Ac, felly, wrth ymateb i drychineb fel un 22 Mai, dydy sôn am fynd i Syria neu Irac i "chwalu" mudiad fel IS ddim yn ddigon. Mae angen ymateb llawer dyfnach na hynny.

Mae geiriau gwyllt ac ymosodiadau byrbwyll yn gallu gwneud pethau'n waeth, gan roi'r esgus i fudiadau creulon a gwthio pobol simsan i'w cyfeiriad nhw.

Yr unig ateb gwirioneddol yw dweud ein bod ni am weithio i sicrhau na fydd plant yn unman yn cael eu lladd oherwydd ein rhyfeloedd ni. Ym Manceinion, Damascus, neu Lanbed.



"Melys Mwyn Mehefin"

Melys yn wir yw'r thema y mis yma, wrth i mi gynnig rysetiau melys i chwi. Gan obeithio am dywydd mwyn yn ystod y Mis, maent yn hyfryd felly ar gyfer te ar y patio!

Dyma rai o gacennau byddaf yn hoffi eu paratoi dros dymor yr Haf. Maent i gyd yn defnyddio ffrwythau fel y prif gynhwysyn.

Pob hwyl wrth bobi drwy'r Mis,

O'r gegin, *Gareth*

Teisen Hirddydd Haf

2 eirin gwlanog (peaches) a	4 Bricyll (apricots) wedi eu sleisio
50 g siwgwr brown meddal	75 g o flawd plaen
1 llwy de o bowdwr codi	¼ llwy de halen
2 ŵy, ac 1 gwyn-ŵy	100 g siwgwr mân
1½ llwy de rhin fanila (extract)	

Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 190 C. 375 F. Nwy 5. Irwch tun cacen 10 modfedd, a leiniwch â phapur pobi.
2. Rhowch y ffrwythau mewn powlen, ychwanegwch y siwgwr, ac yna eu rhoi ar waelod y tun cacen.
3. Rhidlwch y fflwr, powdwr codi a'r halen mewn powlen, ac yna mewn powlen fawr, chwisgiwch yr wyau, y gwyn-ŵy a'r siwgar, gan ddefnyddio chwisgiwr trydan, nes bod y cyfan yn liw golau ac yn llawn aer.
4. Ychwanegwch y fanila, a throï'r blawd i mewn yn ofalus. Rhowch ar ben y ffrwythau
5. Pobwch am 15 munud, a'i weini gydag hufen ia.

Tafelli llus

250 g blawd plaen	1 llwy de powdwr codi
150 g menyn meddal	75 g siwgwr mân
1 ŵy wedi'i guro	

Topin'

5 owns hylif o hufen i'w chwipio	50 g siwgwr mân
4 llwy fwrdd Jam Llus (Blueberries)	200 g llus ffres

Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 180 C. 350 F. Nwy 4. Irwch dun Swiss Roll a leiniwch â phapur pobi.
2. Rhidlwch y blawd a'r powdwr codi, ac ychwanegwch y menyn, a'i rwbio i'r blawd. Ychwanegwch y siwgwr a'r ŵy, gan eu cyfuno'n dda. Gwasgwch i waelod y tun a'i bricio â fforc. Pobwch am 15 munud.
3. I'r topin', chwipiwch yr wyau, hufen a'r siwgwr nes yn llyfn. Gwasgarwch y jam dros y gwaedod, yna arllwyswch y gymysgedd wyau, ac yna'r llus ffres. Pobwch am 25 munud. Gweinwch yn dwym neu'n oer.

Teisen Pînafal a Chneuen goco

432 g pînafal wedi'i falu allan o dun (crushed)	
100 g menyn medal	175 g siwgwr mân
2 ŵy ac 1 melynwy	225 g blawd plaen
1 llwy de powdwr codi	½ llwy de soda bi-carb.
50 g cneuen coco (coconut)	

Topin'

175 g caws hufenog	175 g siwgwr eisin
2 lwy fwrdd sudd pînafal o'r tun	

Dull

1. Gwresogwch y ffwrn i 180 C. 350 F. Nwy 4. Irwch a sgytiwch ychydig o flawd dros dun siap modrwy
2. Curwch y menyn a'r siwgwr ac ychwanegwch yr wyau'n raddol.
3. Ychwanegwch y cynhwysion sych, ac yna'r pînafal.
4. Rhowch yn y tun a phobwch am 25 munud. Gadewch i oeri.
5. I'r topin', cymysgwch y cynhwysion. Gwasgarwch dros y gacen ac addurnwch â chneuen coco wedi'i dostio.



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Cynnyrch Eisteddfod Capel-y-Croes

Cystadleuaeth Cyfnod Allweddol 2 (Bl. 3 - 6: Ysgrifennu stori neu ddarn o farddoniaeth: Anrheg gan Elen Morgan, Drefach

Cerdd: Anrheg

(bocs a anfonwyd fel rhan o Apêl Christmas Child)

Mae'n 'Ddolg unwaith eto
Hip-hip, hip-hip, hwre,
a'r mynydd o bresante
yn swatio'n glyd dan
goeden anferth.
Sŵn papurau'n rhwygo
a lleisiau plant yn
bloeddio eu llawenydd...
I pod, Ipad a I Phone 7
Hip-hip, hip-hip, hwre.
Chwerthin a dathlu
yfed a bwyta...

Ond ynghanol y miri
meddwl a myfyrio
a chofio am
focs esgidiau llawn
aeth mewn lori
draw i Bosnia.
Meddwl a dychmygu
a gweld dagrau
yn llifo fel afon fudur lawr
y bochau croenddu.
Yr UN anrheg
a ddaeth â chymaint o lawenydd
y 'Dolig hwn.



Ffugenw: 'Y Bocs'

Llenyddiaeth Cyfnod Sylfaen – Barddoniaeth neu Stori

Gwyliau gan Popi

Canodd y ceiliog yn gynnar heddiw! Roedd hi yn 5:30 y bore. Tasgodd pawb mas o'r gwely, gwisgodd pawb ei dillad, brwsio'i dannedd a'u gwallt a hynny heb gwmpo mas na dweud un gair croes! (Rhywbeth rhyfedd iawn a dweud y gwir i deulu Jones, Y Felin, Llanllwni achos does neb yn hoffi dihuno yn gynnar fel arfer yn y teulu hwn.) Ond, roedd heddiw yn ddiwrnod gwahanol. Diwrnod cyffrous. Pam? Wel, achos bod y teulu Jones yn mynd ar ei gwyliau i wersylla yn Sir Benfro.

Ar ôl brecwast, Paciwyd y car. Roedd yn llawn dop! Roedd dad yn gyrru, Mam yn darllen y map er bod ganddynt TomTom, Tirion y ferch hynaf yn gwyllo DVD, Swyn y ferch ifancaf yn gwrando ar gerddoriaeth 'Little Mix' a Gruff y babi yn y canol yn chwarae gyda'i hoff degan y JCB, ac yng nghanol y cwblw roedd y pyg bach du, Myfanwy yn twrio am fisgeden a gwmpodd ar y llawr echddoe.

"Ydy pawb yn barod?" gofynnodd mam,

"Ydyn" atebodd pawb.

"Ydy pawb wedi bod i'r tŷ bach?"

"Ydyn"

"Felly, bant a ni" gwaeddodd dad.

Roedd popeth yn mynd yn hwylus, y tywydd yn braf, pawb yn hapus, Gruff yn cysgu, Myfanwy yn chwyrni yng nghôl Swyn, a Tirion yn gwyllo ei ail Dvd! Ond, yn sydyn, mewn chwinciad chwanen, newidiodd popeth, daeth sgrech fawr fel pobol mawn ffair, nid o Gruff fel y byddech chi yn disgwyl ond o Tirion!

"Mae'r batri wedi darfod!!!! Ble mae'r cable?"

"Yn y 'bwt'" meddai Mam.

"Ond be wna i nawr! "

"Eistedd yn dawel falle ac edrych ar yr olygfa" awgrymodd Dad.

"Ond dad, mae hyn mor anheg!"

"Dim ond hanner awr arall sydd ar ôl" dwedodd Mam.

"HHHHHHYYYYY" wfftiodd Tirion a phwddi nes i Myfanwy yn sydyn, ddechrau hwdi dros gôl Swyn. Daeth y drewdod mwyaf ofnadwy fel ffermwr yn sgwari dom drwy'r car a wnaeth i Swyn sgrenchen fel barcud coch gan ddihuno Gruff gyda ei sŵn. Dechreuodd hwnnw sgrenchian mewn ofn wedyn a bu yn rhaid i Dad i stopio'r car ar ochr y ffordd a helpu mam i fwydo Gruff tra bod mam

Cystadleuaeth y Gadair i rai o dan 21 oed – Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 30 llinell neu stori. Thema: Perthynas.

'Perthynas'

(Cerdd arbennig i'r grŵp 'Cwlwm' â Mam yn un ohonynt)

Pump haden
yn cyd-gordio'n gelfydd.
Pump cyfaill triw
a'u nodau'n clymu
yn harmoniau ysblennydd.

Cyd-dynnu yn eboni ac ifori,
a phopeth o'u cwmpas
yn y cywair mwyaf.
Tân eu calonnau
yn tiwnio'r tannau.

Denu ymwelwyr a'u halawon di-ri,
yn 'grescendo' i'r glust.
Hybu cymreictod wrth deithio tramor,
eu symffoni yn rhwymo
pob cynulleidfa.

Datganiadau di-gyfeiliant
yn gordiau i'w trysori.
Do, mi, so, do eu melodi
yn asio'n arbennig.

Pump cymeriad byrlymus
yn falch o'u gwreiddiau.
Cerddoriaeth a chyfeillgarwch
yn eu clymu'n gwlwm tynn.



Llion Thomas, Llambed
Ffugenw: Pentagon

yn twrio am ddillad glân i Swyn.

Cychwynwyd yn ôl ar y daith eto, gyda pheccyn o greision i bob un er mwyn eu cadw yn dawel.

Gwaeddodd dad

"Neb i roi dim i'r ci!"

Or diwedd, cyrhaeddwyd y lle gwersylla a dechreuodd pethau wella. Sylwyd pod yna bwl nofio dan do i gael, parc chwarae hyfyrd a thafarn anhygoel i gael swper ynddi. Roedd y gwyliau yn hwyl ar ôl y siwrne i lawr, gobeithio bydd y daith yn well ar y ffordd nôl.

Ela Mablen Griffiths-Jones,
Cwrtnewydd



Cefn Hafod
Gorsgoch
Cyri bob nos Wener,
£6 y pen
Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos
Nos Lun— Nos Sadwrn
Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

LK *Ceginau Lifestyle* **Kitchens Ltd**
CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257
www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Cegin Coedlannau
*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*
* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Ym mis Mai aeth yr aelodau ar daith ddirlgel a drefnwyd, gyda diolch, gan Avril Jones a Ceinwen Roach. Cafwyd taith fer mewn bws a syndod i bawb oedd cyrraedd busnes cynhyrchu gwin yn dwyn yr enw 'Celteg' yn Henllan, nad oeddem yn gwybod am ei fodolaeth o'r blaen. Busnes teuluol ydyw sy'n cynhyrchu gwin, medd, jam a siytni. Treuliwyd prynhawn braf yn dysgu am sefydlu'r fenter, yn cael ein tywys o amgylch, yn blasu'r diodydd a'r cyffeithiau gwahanol ac yn prynu'r nwyddau yn y siop. Diddorol oedd deall eu bod yn teimlo mai'r ffordd draddodiadol o wirio bod jam wedi setio sydd orau, sef rhoi ychydig ar soser oer. Yna aethpwyd ymlaen i Dafarn Ffostrasol i gael pryd o fwyd blasus. Yno hefyd cynhaliwyd ein cyfarfod misol, gydag Avril Jones yn Llywyddu a beirniadwyd cystadleuaeth y mis, sef broetsh. Mary Davies oedd yr enillydd gyda Gwen Davies yn ail ac Alice Davies yn drydydd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Luned Jones, Blaenwaun-ganol, ar dderbyn dwy wobwr ariannol ar gyfer myfyrwyr amaethyddiaeth oddi wrth undeb yr NFU yn ddiweddar. Cyflwynwyd y cyntaf iddi gan gangen Ceredigion o NFU-Cymru yn noson wobrwyo Ysgol Bro Pedr ym mis Ebrill ac yna, yn ystod mis Mai, cadarnhawyd ei bod yn un o bedwar myfyriwr sydd wedi derbyn bwrsari oddi wrth yr NFU yn ganolog. Bydd Luned yn hedfan i Seland Newydd cyn diwedd y mis a bydd yn treulio blwyddyn yn gweithio ar fferm yn nhalaith Waikato fel rhan o'i chwrs gradd ym Mhrifysgol Harper Adams. Pob lwc i ti a mwynha'r flyddyn!

Penblwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Amanda Jones, Blaenhedd, a ddatlodd benblwydd arbennig ar ddiwedd mis Mai.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Kim Williams, Tynllyn yn teimlo'n well erbyn hyn ar ôl derbyn llaw driniaeth ganol mis Mai.

Pont gerdded newydd

Mae taith gerdded gylchol newydd ar gael yn Llanwnnen, yn Nyffryn Teifi diolch i dîm hawliau tramwy Cyngor Sir Ceredigion a fu'n ymgymryd â gwelliannau'n ddiweddar i lwybrau troed yn yr ardal, a oedd yn cynnwys gosod pont gerdded 14 medr ar draws yr afon Grannell.

Golchwyd ymaith hen bont

garreg ychydig o flynyddoedd yn ôl ac o'r herwydd nid oedd bellach gyfle i bobl leol nac ymwelwyr i gael mynediad dros yr afon, sy'n isafon i afon Teifi, ac yn cynnwys rhywogaethau prin megis dwrgwn, penllwydion (sewin) a glas y dorlan.

Roedd gosod pont gerdded newydd yn un elfen yn unig o'r gwaith oedd yn ofynnol, a oedd yn cynnwys clirio llystyfiant, gosod gathiau a mân welliannau i wyneb y llwybr. Cyflawnwyd y prosiect yma drwy gydweithio rhwng y Cyngor Sir, contractwyr lleol, perchnogion tir a gwirfoddolwyr hawliau tramwy ac ariannwyd y gwaith yn gyfan gwbl gan grant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Dyweddodd Eifion Jones, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion, "Mae'r bont newydd yma yn un o safon sy'n mynd i fod yn gadarn am flynyddoedd i ddod ac fe fydd yn helpu pobl i fwynhau'r ardal. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'i hadeiladu."

Mae clustnodi a hyrwyddo teithiau cerdded cylchol fel hyn yn Llanwnnen yn elfen allweddol o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion gan hefyd gyfrannu tuag at gyflawni amcanion economaidd, teithio llesol a lles/iechyd y Cyngor.

Clwb Clonc

Mehefin

£25 rhif 225 :

Vera James,

Y Fron, Heol y Bont,

Llambed

£20 rhif 518 :

Heather Williams,

Maesfflur, Heol Maestir,

Llambed

£15 rhif 125 :

Lewis Davies,

Beilibach, Llanllwni

£10 rhif 460 :

Glenys Thomas,

Llysteifi, Station Terrace,

Llanybydder

£10 rhif 531 :

Eleri Thomas,

38 Penbryn, Llambed

£10 rhif 121 :

Lewis Davies,

Cilmeri, Cwmsychpant

£5 rhif 144 :

Evan Evans,

Nirvana, Cwmann


Llanfair Clydogau

Twine and W(h)ine

Dyma grŵp llwyddiannus iawn sy'n cwrdd yn Neuadd y pentre, grŵp o ferched sy'n cwrdd i greu.

Mae y grŵp nawr yn ei ddeuddegfed blwyddyn ac wedi tyfu i gynnwys aelodau o Gellan, Llangybi a Thregaron. Cafodd y project cyntaf a wnaethant gyda'i gilydd ei ysbrydoli gan y gwelliannau a oedd wedi cael eu gwneud i'r Neuadd, a phenderfynwyd creu baneri i hongian o'r nenfwd. Bu hyn yn brofiad mor ddymunol ac yn ddechreuad hefyd i lawer o broiectau yn cynnwys yr holl grŵp. Dros y blynyddoedd rhoddwyd tri cwilt mewn cystadleuthau.

Gwerthwyd y cyntaf am £550 a'r arian yn mynd i Ambiwlans Awyr Cymru. Mae yr ail yn hongian yn y neuadd. Cafodd y trydydd ei wneud ar themâu 'Holst' Planet Suite ' gan mai hwn oedd teitl y gystadleuaeth. Yr ysbrydoliaeth i gyflawni oedd poblogrwydd Major Tim Peake yng ngorsaf y gofod. Galwyd y gwaith arbennig hwn yn 'Pipo ar y Planedau', a bu yn hwyl fawr i'w greu ac i edrych arno gyda gwên gobeithio. Mae cymysgedd o grefftau'n cael ei gwneud, - cwiltio, clytwaith, gwau, croshe, matiau o racs, gwnio croesbwyth, tapestri ac ambell weithdy i ddysgu arbenigedd newydd. Mae y grŵp yn gwerthfawrogi sgiliau arbennig un o'i haelodau hynaf sef Mrs Iris Quan sydd wedi ennill gwobrau di-ri am ei gwaith gwnio. Maent wedi cael gweithdai yn arbenigo mewn clytwaith, applique, cwiltio traddodiadol, matiau o racs a chwilltiau Ynys Manaw. Hefyd ailgylchu cynfasau gwely i greu matiau wedi eu gwau. Os gwrandewch wrth ddrws y neuadd ar brynawn Dydd Iau cewch glywed llawer o chwerthin a chlone, gyda phawb yn glust i'w gilydd dros baned, tra yn gweithio a gwrando, a phob un yn barod i rannu eu harbenigedd a'u sgiliau ac hefyd ambell i drip mas i joio. Maent yn cwrdd bob pythefnos ar brynawn Dydd Iau yn y neuadd o 2.25 hyd 4.30. Cost aelodaeth yw £1 y sesiwn. Manylion gan Paula Barker ar 01570 493206.



Celf

Cynhaliwyd arddangosfa Gelf yng nghanolfan newydd hyfryd Longwood ar ddydd Sadwrn a Dydd Sul, Mai 20fed a'r 21ain gan chwech o artistiaid Grŵp Llanfair, Ali Scott, Bronwen Powell, Cassie Grey-Claire Parsons, Sue Powell ac Aerwen Griffiths. Cafwyd tipyn o bobol yn galw mewn ond gan mae dyma'r tro cyntaf i ni ddefnyddio y lleoliad yma, rydym yn gobeithio y bydd llawer mwy o gefnogaeth i'r achlysur y tro nesaf pan fyddwn yn gwneud hyn eto ar Orffennaf yr 8fed a'r 9fed. Gobeithio y cawn eich gweld yno, lle hudolus i gerdded neu feicio hefyd.

Ar Awst 3ydd, 4 ydd 5ed a'r 6ed bydd holl aelodau Grŵp Llanfair yn cynnal eu harddangosfa flynyddol yn Neuadd y Pentre. Dewch yn llu i'n cefnogi a chael paned a chacen a digon o gymdeithasu.

Llongyfarchiadau



Pleser yw cael llongyfarch Llinos Thomas, Awelon am ei rhan yn chwarae peldroed i Ferched Ffostrasol Tîm Dan 12 yn y gyngrair leol. Ar noson yr etholiad roeddynt yn chwarae yn erbyn Sir Gaerfyrddin yng ngêm ddiwethaf Cwpan Gorllewin Cymru a chael eu coronni yn bencampwyr wrth ennill 4-0. Hefyd mae Llinos wedi chwarae i dîm Merched Ceredigion Dan 12 pan ddaethant yn ail yn y twrnament ryngynggrair (interleague) yn Aberystwyth. Da iawn ti.



Enw: Rhian Thomas

Oed: 26

Tref: Llambled

Gwaith: Cynorthwydd Dysgu

Partner: Rhys Jones

Teulu: Mam, Dad ac Elen.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Rosie and Jim.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

Ddim i anghytuno gyda mam!

Y CD cyntaf a brynast di erioed?

Steps (a dal i wrando i'r CD heddiw).

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Bron a saethu dad gyda 'pellet gun'

Beth oedd y frawddeg bachu gorau a ddefnyddiaist erioed, neu'r frawddeg bachu a glywaist?

Don't drink to feel better, drink to feel even better

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Gyda phawb sydd yn agos i mi ac ar y cae hoci.

Pwy yw dy arwyr?

Neil Jenkins - Cyn faswr Cymru.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?

Antelope ond sain shwr pam.

Beth yw dy arbenigedd?

Bod yn 'Pratical' fi yw engineer y teulu.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Personoliaeth y plant.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Wastod rhywun i ddibynnu arno.

Pa mor wyrdd wyt ti?

Rwy'n ceisio fy ngorau.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio



A'th hoff adeilad?

Stadiwm Pricipality yng Nghaerdydd.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Chinese

Beth yw dy ddiod arferol?

Squash yn yr wythnos.....

Kopernberg ar y penwythnos.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Ar hyn o bryd 'Deathlist' gan Chris Ryan.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?

Daily Mail Online.

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?

Casualty a Holby City.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Huw Henbant.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

'i Phone Charger'

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

'Back flip'

Beth sy'n rhoi egni i ti?

Losin yn enwedig 'JellyTots'.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?

Dad

Y gwyliau gorau?

Trip hanes yr ysgol i Ffrainc i weld y beddau rhyfel

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

Yr Amerig, India a Hong Kong.

Arferion gwael?

Cnoi fy ewinedd.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?

I ddarllen meddyliau pobl.

gyntaf?

Cymraeg bob tro.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?

Cymry ddim i dalu treth.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Cegin newydd.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?

Mewn coedwig ar waelod Pen y Fan gyda 6 o fyfyrwyr eraill o UWIC.

Unrhyw ofergoelion?

Dydw i ddim yn cerdded ar 3 'manhole' cover ar y stryd.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n bersonol?

Cael 'Supporter of the Year' gyda Clwb Rygbi Llambled.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

I drin bobl fel hoffwn i gael fy nhrin.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Elen Medi.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?

Mae'n well peidio gofyn iddyn nhw.

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Polo Du.

Beth yw dy hoff wisg?

Tracksuit bottoms ne shorts (dibynnu ar y tywydd).

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

2		1				5	4	
				2				
				6		2	9	8
			3				8	
	4		6		2		1	
	2				5			
9	6	7		8				
				3				
	1	8				6		9

Swdocw Mai:

I Llongyfarchiadau i **Joan Stacey**, Tynwaun, Ffaldybrenin am ennill y mis hwn, a diolch i'r ddau arall am gystadlu: Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder.

9	5	3	6	4	8	2	7	1
2	1	4	7	3	9	8	5	6
7	6	8	5	2	1	3	4	9
1	8	7	3	6	4	9	2	5
3	4	9	2	8	5	6	1	7
5	2	6	1	9	7	4	8	3
8	9	5	4	7	6	1	3	2
4	7	2	9	1	3	5	6	8
6	3	1	8	5	2	7	9	4

CLONC CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:



ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code: Rhif cyfrif: 03451526

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay Nat West, Llambod 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2017
1st July 2017

Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af
Thereafter annually on 1st July

nes y derbynwch rybydd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:


LAS Recycling Ltd



Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambod, Ceredigion, SA48 8LT

Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Dysgwyr o Lamed yn serennu

Yn ystod yr wythnosau diwethaf daeth cryn lwyddiant i ddysgwyr Cymraeg sy'n mynychu dosbarth a gynhelir yn Ysgol Bro Pedr bob nos Fercher dan diwtoriaeth Carol Thomas o Lanwnnen. Ers sawl blwyddyn bellach cynhelir cystadlaethau ysgrifennu Cymraeg i ddysgwyr gan Ferched y Wawr. Yng Ngŵyl Haf y Mudiad ym Machynlleth ddydd Sadwrn, 20 Mai gwobrwyd Jill Cropley â'r wobwr gyntaf ar lefel Canolradd, am ysgrifennu erthygl am ei hardal leol a gwobrwyd Jane Unitt â'r ail wobwr yn yr un gystadleuaeth. Cyflwynwyd tlws o lechi, tystysgrif a thocyn llyfr i'r ddwy.

Enillodd dysgwyr y dosbarth chwe gwobr unigol hefyd yn Eisteddfod y Dysgwyr a gynhaliwyd yn Felinfach yn ddiweddar. Jane Burtenshaw-Jones - yr ail wobwr yng nghystadleuaeth y Gadair a'r ail am addurno cacen; Jill Cropley - ail wobwr am ganu unawd - yr oedd wedi cyfansoddi'r geiriau a'r alaw ei hun; Jane Unitt - ail wobwr am greu eitem mewn tecstilau; Jane Unitt a Jane Burtenshaw-Jones - cydradd trydydd am ysgrifennu llythyr yn canmol. Yn ogystal, bu Linda Heath a'r dysgwyr a enwid uchod i gyd yn rhan o'r parti unsain a enillodd y wobwr gyntaf.

Dyma gerdd Jane Burtenshaw-Jones ar y testun 'Llwybrau' a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod y Dysgwyr ac mae'n sôn amdani hi yn codi ei phac o Loegr ac yn bwrw gwreiddiau yn Llamed.

Llwybrau

Tua'r gorllewin dw i'n teithio, yn croesi'r ffordd llwm, llwyd,
Gadael y ddinas, fy frind, fy ngwlad ar ôl
Wrth fynd ar drywydd meysydd brasach ac anturiaethau newydd.
Croesi'r bont, y ffin rhwng Lloegr a Chymru,
Y brynau aeddfed yn disgleirio gydag addewid,
Fy nyfodol yn gudd gan dwmpathau mynyddig,
Cartref newydd, ffrindiau newydd, addysg newydd, bywyd newydd.

Dw i'n gweld eisiau'r hyn a fu, ond yn cofleidio'r newydd,
Teithiau i'r traeth, lle mae'r tonnau yn awr yn torri ar garreg fy nrws.
Nosweithiau yn yr awyr agored o dan goron o sêr
Sydd i'w gweld mor glir yma, yn bell o belydrau llachar y ddinas,
Yn mynegi ein straeon, ein caneuon, ein bywydau,
Teithiau sy'n ein harwain i ddarganfod y tir garw hwn.

Tair blynedd aeth heibio a thybed pa lwybr y cerddaf nesaf?
Dw i wedi cynefino â'r pridd hwn.
Gadaw ffrindiau, ond nid wyf ar fy mhen fy hun,
Mae'r trigolion wedi fy nerbyn, dw i wedi eu derbyn nhw,
Fy nhynged wedi'i selio yn y dyffryn gwyrdd hwn,
ar ôl dod o hyd i'm gŵr,
Cymro lleol, sy'n datgelu rhyfeddodau cudd yr ardal,
Yn fy arwain i lefydd newydd a gwneud hwn yn gartref i mi.

Ein cartref. Ein noddfa cyfyng gwyn.
Fy hapusrwydd. Dw i eisiau perthyn i'r diwylliant hwn.
Dod yn rhan o'r lle dw i'n ei alw'n gartref,
Y bobl, yr hanes, cyfoeth y tir,
Dw i eisiau blasu'r iaith, teimlo'r gân,
Ymdoddi yn yr hanes, creu fy hanes fy hun.
Geni teulu, dwy ferch hardd. Dw i'n fam!
Fy nheulu'n gyflawn, dw i'n gyflawn.

Symud i noddfa newydd, noddfa fwy
I gartrefu'r holl gariad sydd gennym,
Treulio nosweithiau hir yr haf
Yng nghynhesrwydd melyngoch yr haul
Sy'n tywynnu arnon ni a'n hapusrwydd.

Gadael traciau yn yr ardd wrth i ni chwarae gyda'n gilydd,
Synau ein chwerthin yn hofran yn yr awel ffres,
Yn cael eu cario i ffwrdd, gan droi'n atgofion pell.
Atgofion dw i wedi eu cloi yn ddwfn y tu mewn,
Y tu mewn i'm calon, am byth.

Fy nheulu, fy nghartref,
Yr aelwyd na allwn fod wedi gwybod amdani,
I le yr o'n i'n mynd neu sut y bydden yn tyfu,
Ond gwn yn awr mai dyma oedd i fod,
Gall llwybrau bywyd arwain i unrhyw gyfeiriad
A dw i'n hynod hynod ddiolchgar i'm llwybr i
Fy arwain i Gymru, fy nghartref.



Jane Burtenshaw-Jones

Dyma lythyr Jane Unitt a ddaeth yn gydradd drydydd yn Eisteddfod y Dysgwyr yn canmol Cynghorwyr Tref Llamed am eu gwaith yn gwneud y dref i edrych yn hardd.

Annwyl Gynghorwyr Llanbedr Pont Steffan,

Dw i'n ysgrifennu i'ch llongyfarch chi ar y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud i'r ardd goffa hyfryd yn Llanbedr Pont Steffan. Pan gafodd y newidiadau eu gwneud, cafwyd cwyno bod coed wedi cael eu torri i lawr, ond roedden nhw wedi tyfu'n rhy fawr i'r ardd ac roedden nhw wedi cael eu niweidio gan stormydd y gaeaf.

Mae'r ardd wedi newid er gwell. Dyn ni'n gallu gweld y gofeb ac mae planhigion diddorol iawn yno sy'n blaguro ar wahanol adegau yn ystod cylch y flwyddyn. Maen nhw'n ein hatgoffa ni o'n parch tuag at y dynion a'r merched a gollodd eu bywydau droson ni.

Diolch hefyd am y blodau sy'n cael eu harddangos ar hyd a lled y dref yn yr haf. Mae Llanbedr Pont Steffan yn edrych yn hyfryd bob blwyddyn gyda'r basgedi crog a'r twbâu lliwgar ar y strydoedd. Diolch, yn ogystal, am y goleuadau Nadolig. Dw i'n gwybod fod aelodau'r Cynghor yn rhoi'r goleuadau lan eu hunain bob blwyddyn.

Mae'r holl bethau hyn yn gwella ein bywydau yn fawr ac mae pobl yn anghofio diolch i chi am eich gwaith caled droson ni. Dw i bob amser yn edrych ymlaen at ddod i Lanbedr Pont Steffan.

Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Yr eiddoch yn gywir
Jane Unitt

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel wrth i mi ysgrifennu'r llythyr yma atoch mae'r haul yn gwenu'n braf arnaf ac rwyf wrth fy modd yn torheulo yn yr ardd. Digon o hufen iâ a sudd oren oer. O dyma'r bywyd i grwbau diog fel fi!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio fy ffrindiau pedair coes yn pori allan yn y cae mis diwethaf. Da iawn chi. Roeddwn yn hoff iawn o lun Fflur Morgan o Drefach, Mari Rees o Gwmsychpant, Soffia Draycott Evenden o Llanybydder a Fflur McConnell o Aberaeron. Da iawn chi gyd. Serch hynny llun gorau'r mis oedd un Lleucu Aur Jones, Maesalwad, Pontrhydfendigaid. Llongyfarchiadau mawr i ti Lleucu!

Wel mae llawer ohonoch chi siwr o fod yn mynd am dro i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont-ar-ogwr dros wyliau'r hanner tymor. Pob dymuniad da i bob un ohonoch chi sy'n cystadlu, a chofiwch i wneud eich gorau glas. Yn bwysicach oll, gwnewch yn siwr eich bod yn mwynhau. Bydd nifer o fy ffrindiau innau yn camu ar lwyfan yr Eisteddfod, felly beth am fynd ati i liwio llun ohonynt mis yma? Cofiwch ddychwelyd y llun i mi cyn gynted â phosib.

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Lleucu
Aur
Jones

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Y PANNWR, Y TWCWR A'R DEINTIR (93)

Defaid a chynnyrch y ddafad fu asgwrn cefn economi gweundiroedd a ffermydd mynydd Cymru er erioed. Roedd y wlad yn gallu cynnal preiddiau sylweddol eu maint. Cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tair sir de-orllewin Cymru oedd canolbwynt y diwydiant gwlân yng Nghymru. Yr adeg honno roedd dros 300 o felinau gwlân yn siroedd y gorllewin a ffyniant pentrefi megis Dre-fach, Felindre, Henllan, Llandysul a Phentre-cwrt yn ddibynnol ar y ffatrioedd gwlân oedd yn darparu gwlanen, crysau a phlancedi ar gyfer ardaloedd diwydiannol de Cymru yn bennaf.

Byrhoedlog fu'r llewyrch, sut bynnag, ac edwino'n frawychus o gyflym a wnaeth y diwydiant yn yr ardaloedd hyn o dechrau'r 1920au. Wedi dweud hyn mae rhai melinau yn dal i gynhyrchu ac yn dal yn ffyniannus yng ngorllewin Cymru. Maen nhw wedi llwyddo trwy farchnata'n effeithiol a chynnyddau o'r safon uchaf.

Nôl yn y ddeuddegfed ganrif nododd Gerallt Gymro fod gan y Cymry brofiad helaeth o gynhyrchu gwlân ond eu bod yn ddi-hyd am ddiwydiant a masnach. Hynny yw, darparu ar gyfer anghenion lleol oedd y nod bryd hynny, gan anwybyddu allforio. Byddai gan bob ardal griw o nyddwyr, gwehyddion a gweuwyr hosanau.

Erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, daeth tro ar fyd. Fesul cam datblygodd crefft deuluol yn fenter fasnachol go iawn a'u gorwelion yn ehangach na darparu yn bennaf ar gyfer y galw o du cymunedau lleol hunangynhaliol.

Dyma ddyrmaid o enwau yn ymwneud â'r diwydiant gwlân mewn cyfnod

cynnar mewn enwau lleoedd yn rhai o bentrefi'r ardal hon:

PANDY: Llangeler (1572); Pencarreg (1598); Caoe (1614); Cynwil (1581).

CAE'R PANNWR: Cil-y-cwm (1669).

Y FELIN BAN: Blaenceri (1651); Llangeler (1572). LLWYN Y DEINTIR: Llanybydder (1599/1600); CAE'R DEINTIR: Llandeilo (1614/5); TIR Y TWCWR TEG: Llandysul (1564).

Yn y 'pandy' y byddai'r defnydd yn cael ei lanhau er mwyn cael gwared ar yr olew a'r baw ac unrhyw ddeunydd diangen arall. Yn y cyfnod cynnar traed y pannwr fyddai'n gwneud y gwaith o wasgu pisio drwy'r defnydd er mwyn ei lanhau. Disodlwyd yr arfer diddorol hwn yn ddiweddarach gan bastynnau llaw (gyrdd) a sebon. Nod arall y pannu oedd tewhau'r brethyn er mwyn ei gryfhau a sicrhau ei fod yn gallu gwrthsefyll dŵr.

Ffrâm bren i ddal y wlanen yn dynn oedd y 'deintir' er mwyn iddo sychu'n deg a gwastad ar ôl y pannu.

Y 'twcwr' oedd yn gyfrifol am liwio'r deunydd ac am y 'pannu', yn ogystal, yn aml iawn.

Er bod cof yn Llanllwni am felinau gwlân Morris Davies, Meadow Vale, a Thomas Davies, Wernen-fach, dyw'r diwydiant gwlân ddim yn cael ei goffâu o gwbl mewn enwau lleoedd yn y plwyf. Mewn enwau caeau ar restrau'r degwm yn unig yr erys cof am y diwydiant gwlân yn y plwyf:

CAE FELIN BAN, Y Bryn; CAE PEN Y GYRDD, Beilbedw; CLYN TOCAN, Y Gelli; CAE BRYN GWYDD, Aberceiliog.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru/enwaulleoedd@gmail.com

Twrnament Pêl-droed Llanybydder

Cafodd timau pêl-droed Llambled benwythnos prysur a llwyddiannus tu hwnt yn nhwrnament pêl droed Llanybydder.



Tîm pêl-droed Llambled (o dan 16) yn ennill yn Nhwrnament Llanybydder.



Tîm pêl-droed Llambled (o dan 10) yn ennill yn nhwrnament Llanybydder yn ddiweddar gyda'r hyfforddwr Dylan Davies.



Llongyfarchiadau enfawr i dîm pêl-droed Llambled (o dan 8), enillwyr twrnament Llanybydder. Chwaraeodd y bechgyn bêl droed hyfryd. Da iawn Hari, Dion, Shane, Louie, Sion, Elis a Harvey.

Lansio Senedd Ieuenctid

Y stori'n llawn ar wefan Clonc360.



Cyfarfod Carwyn

Bydd Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones AC yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn **Llanbedr Pont Steffan Ddydd Iau 22 Mehefin**.

Dyma'ch cyfle chi i ddweud eich dweud a gofyn yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog am atebion i'ch cwestiynau.

Lleoliad: Neuadd Fictoria, Ffordd y Bryn,
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7EE

Amser: 6.00pm – 7.30pm

Te a choffi ar gael o 5.30pm

I gadw eich lle, ewch i www.eventbrite.co.uk

Anfonwch eich cwestiwn ymlaen llaw i
cabinetcommunications@cymru.gsi.gov.uk
neu cyflwynwch eich cwestiwn wrth ichi gyrraedd.

[Mae modd ichi Gyfarfod Carwyn ar Twitter: @fmwales #cyfarfodcarwyn](#)

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Cwledd o Rygbi er cof am Tom Mackie

gan Tomos Rhys Jones



Enillodd tîm rygbi ieuenctid Llambled yn erbyn tîm dan 20 Tralee yn ddiweddar er mwyn cipio Cwpan Coffa Tom Mackie am yr eildro yn olynol. Mae'r cysylltiad rhwng y ddau glwb yn un hanesyddol sydd wedi bodoli ers blyneddau maith, ac hyd heddiw, mae'r berthynas sydd rhyngddynt yn un sydd mor agos ag erioed.

Roedd Tom Mackie yn un o gymeriadau mwyaf gweithgar ac adnabyddus yng Nghlwb Rygbi Llambled, ac felly roedd y tlws yn un a oedd yn meddwl llawer i aelodau'r tîm, gan fod llawer ohonom ni wedi adnabod y gŵr ers ymuno â'r clwb. Albanwr oedd Tom a oedd hefyd yn enwog gydag aelodau o glwb rygbi Tralee, a dyma beth greodd y berthynas arbennig yma.

Chwaraewyd y gêm ar barc O'Dowd, sef cartref tîm rygbi Tralee, ar ddiwrnod bendigedig. Dechreuodd y gêm yn arbennig i fechgyn Llambled wrth roi pwysau cyson ar linell amddiffynnol y Gwyddelod. Yn fuan, fe dorrodd Ifan Davies drwodd ar gyfer cais agoriadol y gêm yn dilyn dwylo arbennig gan flaenwyr Llambled. Ar ôl i Callum Wilson drosi'r cais, ymatebodd y tîm cartref yn syth wrth sgorio ar yr asgell dde ar ôl i'r tîm oddi-cartref frwydro'n arwrol i amddiffyn y sgôr.

Cafodd maswr y tîm cartref dair cic gosb yn olynol, yn dilyn gwallau esgeulus Llambled. Gaeth y cefnwr tanllyd Ieuan Wyn Rees bedair cais yn ystod y gêm, cyn gadael y cae yn gynnar yn yr ail hanner gydag ychydig o anaf. Ieuan hefyd gipiodd gwobr Seren y Gêm. Fe ymosododd Tralee eto

tuag at ddiwedd yr hanner gyntaf ac yna, yn dilyn cic gosb arall gan y maswr, fe ddaeth yr hanner cyntaf i ben.

Roedd yr ail hanner yn un a wnaeth ddangos safon arbennig o rygbi ymosodol, wrth i'r ddau dîm ledu'r bêl yn effeithiol iawn er mwyn ceisio defnyddio'r cyflymder ar yr esgyll. Yn fuan yn yr ail hanner, fe basiodd y canolwr Matthew Jenkins y bêl i'r gwibiwr ifanc Shaun Morgans cyn i'r asgellwr ochrgamu'n bert heibio'i wrthwynebydd cyn carlamu dros y llinell gais.

Yn dilyn ail gais Ifan Davies, a throiad arall i Wilson, roedd pennau'r gwrthwynebwyr yn dechrau cwmpo, wrth i'r eilydd o fewnwr, Rhys Davies, ddefnyddio'i sgiliau trin pêl yn effeithiol i greu cyfleoedd i'w dîm. Ond, ar ôl ychydig, fe redodd y capten James Edwards yn syth drwy ganol y cae, gan fwrw amddiffynnwr neu ddau i'r llawr yn ffyrnig, ond yn ystod tael lwyddiannus gan y cefnwr, fe ddadlwythodd y bêl i'r asgellwr Rhodri Hatcher er mwyn iddo neidio o dan y pyst i gwblhau'r sgorio. Ar ôl i Hatcher ychwanegu'r trosgais, fe chwythodd y dyfarnwr i derfynu'r gêm.

Fe ddathlodd bechgyn Llambled y fuddugoliaeth ar ôl iddynt siglo llaw gyda'r gwrthwynebwyr. Roedd hyfforddwyr Llambled wrth eu boddau wrth iddynt dderbyn y tlws gyda'r capten James Edwards am yr eildro mewn tair mlynedd. Roedd y sgôr terfynol o 42-16 yn un nad oedd yn adlewyrchu pa mor agos oedd y gêm mewn gwirionedd, ond yn anffodus i glwb Tralee, Llambled oedd ar y brig unwaith eto eleni!



Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am – 7pm

01239 801 601


Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd
Sadwrn o 7am - 7pm



Beth am fynd allan am y diwrnod ar y Bws - gallai fod yn docyn delfrydol

Beth am ymweld a'r amrywiaeth o atyniadau sydd gan Sir
Gaerfyrddin a Cheredigion i'w cynnig yn ystod eich gwyliau...
rhowch gynnig ar Bwcabus!

Mae Bwcabus yn galluogi pobl i deithio rhwng pentrefi a threfi lleol ym mharth
Bwcabus neu i gysylltu â'r prif wasanaethau bysiau gan deithio ymhellach i
lefydd fel Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chaerfyrddin.



A wyddech chi fod ein
parth gweithredol
newydd yn cynnwys y
llefydd canlynol:

Llanfair Clydogau

Cellan

Ffarmers

a'r ardaloedd gyfagos.

